



Llywodraeth EM

Ymgynghoriad ar ymchwiliadau crwner i farw-enedigaethau

Mawrth 2019

CP 16



Llywodraeth EM

Ymgynghoriad ar ymchwiliadau crwner i farw- enedigaethau

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
ar Orchymyn Ei Mawrhydi

Mawrth 2019



© Hawlfraint y Goron 2019

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Fersiwn 3.0 Trwydded Agored y Llywodraeth ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i: nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd arnoch angen gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn <https://www.gov.uk/government/publications>

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni i'r cyfeiriad canlynol:

Coroners, Burial, Cremation and Inquiries Policy Team
Ministry of Justice
102 Petty France
London SW1H 9AJ

Ffôn: 020 3334 3555

Ffacs: 020 3334 2233

E-bost: CoronerReview@justice.gov.uk

ISBN 978-1-5286-1057-5

CCS0219686644 03/19

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys o leiaf 75% o ddeunydd ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan Grŵp APS ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

Gwybodaeth am yr ymgynghoriad hwn

Ar gyfer:

Unrhyw un sydd â diddordeb ond yn benodol pobl sydd wedi colli babi o ganlyniad i farw-enedigaeth neu wedi colli babi yn gynnar mewn unrhyw ffordd; sefydliadau sy'n cefnogi rhieni sydd wedi colli babi, neu'n cynnal/ariannu ymchwil ym maes colli babanod, a phob sefydliad sy'n darparu gofal, cymorth neu gyngor i fenywod beichiog a'u partneriaid neu eu teuluoedd; sefydliadau ac unigolion sy'n ymwneud ag adolygiadau ac archwiliadau gofal clinigol yng nghyswllt marw-enedigaethau; crwneriaid, swyddogion crwneriaid a'r rheini sy'n gweithio mewn gwasanaethau crwneriaid; ac unrhyw weithwyr ieuchyd proffesiynol sydd â diddordeb yn y mater, yn enwedig obstetryddion, neonatolegyddion, bydwagedd, nyrsys a phatholegwyr amenedigol, yn ogystal ag aelodau a chynrychiolwyr o sefydliadau clinigol proffesiynol, y GIG a darparwyr gwasanaethau mamolaeth preifat.

Er mai dim ond i Gymru a Lloegr y mae'r cynigion yn berthnasol, byddem yn croesawu barn pobl a sefydliadau sy'n byw, yn gweithio neu'n gweithredu y tu allan i Gymru a Lloegr.

Hyd:

O 26/03/2019 i 18/06/2019

Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat arall) i:

Coroners, Burial, Cremation and Inquiries Policy Team
Ministry of Justice
102 Petty France
London SW1H 9AJ

Ffôn: 020 3334 3555

Ffacs: 020 3334 2233

E-bost: CoronerReview@justice.gov.uk

Sut mae ymateb:

Anfonwch ymateb erbyn 18/06/2019 drwy ganolfan ymgynghori ar-lein y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/coronial-investigations-of-stillbirths>

Gallwch hefyd anfon eich ymateb drwy e-bost i CoronerReview@justice.gov.uk neu drwy anfon copi caled gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar gyfer "Ymholiadau" uchod.

Bydd yr ymatebion yn cael eu derbyn a'u prosesu gan swyddogion yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Ffyrdd ychwanegol o roi eich barn:

Cynhelir cyfres o gyfarfodydd i randdeiliaid hefyd. I gael rhagor o wybodaeth defnyddiwch y manylion cyswllt ar gyfer 'Ymholiadau' uchod.

Papur ymateb:

Cyhoeddir ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn erbyn
10/09/2019 yn: <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/coronial-investigations-of-stillbirths>

Cynnwys

Rhagair	3
Crynodeb gweithredol	4
Rhagymadrodd	7
Cefndir	8
Y cynigion	15
Amdanoch chi	36
Manylion cyswllt/Sut i ymateb	37
Egwyddorion ymgynghori	39
Atodiad A – Rhestr o'r Ymgynghoreion	40
Atodiad B – Dolenni defnyddiol	42
Atodiad C – Geirfa	43
Atodiad D – Cyfeirnodau	53
Atodiad E – Holiadur	56

Rhagair

Mae marw-enedigaeth yn drasiedi sy'n cael effaith dwys ar deuluoedd sydd wedi colli plentyn. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau y byddwn yn gwneud popeth posibl pan fydd trasiedi o'r fath yn digwydd, er mwyn dysgu gwersi a gwneud newidiadau er mwyn atal marw-enedigaethau y mae modd eu hosgoi yn y dyfodol.

Mae ein cyfraddau marw-enedigaethau ar y lefel isaf y maen nhw wedi bod ers dechrau eu cofnodi, ond maen nhw'n dal yn uwch na'r rhai mewn gwledydd eraill tebyg, sydd wedi llwyddo i leihau eu cyfraddau hyd yn oed yn fwy. Mae llawer o bethau i fod yn falch ohonynt – mae cyfran y cyfnodau beichiogrwydd sy'n arwain at farw-enedigaethau yn gostwng o un flwyddyn i'r llall ac mae wedi bod yn gostwng yn gyson fwy neu lai ers y 1980au. Serch hynny, rydym o'r farn bod mwy o waith i'w wneud.

Er bod gennym systemau cadarn a chynhwysfawr ar gyfer pennu achosion posibl marw-enedigaethau ac adolygu'r gofal sydd wedi cael ei ddarparu, mae lle i gryfhau'r prosesau hyn. Fodd bynnag, er bod llawer o rieni yn fodlon â chanlyniadau'r adolygiadau hyn, mae eraill yn teimlo nad oes rhywun wedi gwrando arnyn nhw bob amser, neu eu bod nhw heb gael mynediad at y ffeithiau i gyd. Mae rhieni eraill yn bryderus nad yw'r gwersi sydd wedi'u hamlygu yn yr adolygiadau hyn yn cael eu rhoi ar waith bob amser.

Dros y blynyddoedd, mae rhieni sydd wedi colli plentyn, elusennau ac eraill wedi galw am broses fwy annibynnol a thryloyw o ran canfod achosion marw-enedigaethau a dysgu ohonynt. Mae'n bryd i ni ystyried y mater pwysig a sensitif hwn yn fanwl.

Mae rhai o'r rheini sy'n galw am newid wedi nodi mai ymchwiliadau gan grwner fyddai'r ffordd orau o ddarparu proses well, tra mae Prif Grwner Cymru a Lloegr wedi ategu ei gais i ystyried o ddifrif p'un ai a ddylid rhoi pwerau i grwneriaid ymchwilio i farw-enedigaethau neu beidio.

Felly, rydym yn falch o gyhoeddi'r ddogfen ymgynghori hon, sy'n gofyn am farn pobl ar y cynigion ar gyfer cyflwyno ymchwiliadau crwner i achosion o farw-enedigaethau yng Nghymru a Lloegr. Mae'r ymgynghoriad hwn wedi cael ei baratoi ar y cyd rhwng y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac mae'n gam pwysig tuag at gyflawni ymrwymiad y Llywodraeth i leihau'r gyfradd marw-enedigaethau.


Yn ogystal â bod yn fwy tryloyw o ran sut caiff marw-enedigaethau eu harchwilio, byddai cynigion y Llywodraeth yn sicrhau bod y rhieni sydd wedi colli plentyn yn rhan o bob cam o'r ymchwiliad ac bod unrhyw beth sy'n cael ei ddysgu o'r ymchwiliadau hyn yn cael ei rannu ledled y system iechyd er mwyn atal marw-enedigaethau y mae modd eu hosgoi yn y dyfodol.

Tra mae'r Llywodraeth wedi bod yn datblygu ei chynigion, mae Bil Aelod Preifat – Bil Partneriaethau Sifil, Priodasau a Marwolaethau (Cofrestru ayb) Tim Loughton AS – wedi bod yn symud drwy'r Senedd. Pe bai'n cael ei ddeddfu, byddai'r Bil yn rhoi dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i drefnu bod adroddiad yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi ynglŷn ag a ddylai crwneriaid ymchwilio i farw-enedigaethau, ac os felly, sut.

Byddai'r Bil hefyd, drwy is-ddeddfwriaeth, yn rhoi pŵer i'r Arglwydd Ganghellor drefnu bod crwneriaid yn ymchwilio i farw-enedigaethau os, ar ôl cyhoeddi'r adroddiad, bod hynny'n cael ei ystyried yn briodol.


Byddem yn annog amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau i ymateb i'r ymgynghoriad hwn oherwydd mae'n bwysig ein bod yn clywed ac yn ystyried pob safbwynt. Yn benodol, rydym yn awyddus iawn i glywed gan rieni sydd wedi colli plentyn, y sefydliadau sy'n eu cefnogi neu'n rhoi cyngor i fenywod beichiog, ymchwilwyr, gweithwyr ieuchyd proffesiynol a darparwyr ieuchyd, yn ogystal â'r rheini sy'n gweithio i wasanaethau crwner.

Byddwn yn ystyried pob ymateb yn ofalus ac yn cyhoeddi ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad yn nes ymlaen eleni.



Edward Argar

Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder



Jackie Doyle-Price

Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Iechyd Meddwl, Cydraddoldeb ac Atal Hunanladdiad

Crynodeb gweithredol

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dilyn ymrwymiad a wnaed gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ym mis Tachwedd 2017, i weithio gyda'r Weinyddiaeth Cyfiawnder i ddatblygu cynigion yng nghyswllt crwneriaid yn ymchwilio i farw-enedigaethau.

Mae'r Llywodraeth yn ymgynghori ar nifer o gynigion sy'n ceisio:

- gwneud y modd mae marw-enedigaethau'n cael eu harchwilio yn fwy annibynnol;
- bod yn dryloyw a gwella'r modd mae rhieni sydd wedi colli babi yn cael eu cynnwys yn y broses o ymchwilio i'r farw-enedigaeth, gan gynnwys datblygu argymhellion sy'n ceisio gwella gofal mamolaeth; a
- rhannu'r hyn sy'n cael ei ddysgu o ymchwiliadau ledled y system iechyd er mwyn helpu i atal marw-enedigaethau y gellid eu hosgoi yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd, mae nifer o brosesau sefydledig ar waith i ymchwilio i achosion marw-enedigaethau, ac mae'r rhain wedi'u nodi yng nghefnidir yr ymgynghoriad hwn. Yn y cyd-destun hwn y byddai crwneriaid yn ymchwilio i farw-enedigaethau. Fodd bynnag, nid ydym yn ceisio disodli'r rôl bwysig mae'r GIG yn ei chwarae. Yn hytrach, bydd ymchwiliadau crwneriaid yn ategu a chefnogi'r ymchwiliadau hynny ac yn sicrhau bod crwneriaid yn gallu cyfrannu at ddysgu a chwarae rôl o ran lleihau'r gyfradd marw-enedigaethau.

Mae Pennod 1 y ddogfen hon yn ystyried y galw am gynnal ymchwiliadau crwner i farw-enedigaethau. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r GIG wedi cymryd camau i wella ansawdd a thryloywder adolygiadau ac ymchwiliadau i farwolaethau, ond nid yw'r holl fentrau hyn yn cynnwys marw-enedigaethau. Mae pryderon bod y rhan fwyaf o adolygiadau ac ymchwiliadau yn cael eu cynnal yn y gwasanaeth lleol lle digwyddodd y marw-enedigaeth, heb ddigon o graffu annibynnol, neu ddim o gwbl. Mewn rhai achosion, nid yw rhieni yn cael eglurhad llawn o amgylchiadau marwolaeth eu plentyn a'r hyn mae'r gwasanaeth yn ei wneud i sicrhau na fydd marw-enedigaethau gydag achosion tebyg y mae modd eu hosgoi yn digwydd eto. Mae rhai rhieni sydd wedi colli babi, elusennau a phartion eraill â buddiant wedi cynnig y byddai cynnal cwestau crwneriaid y tu allan i'r GIG, mewn llys agored, yn sicrhau bod yr ymchwiliadau yn dryloyw ac o ansawdd uchel, ac yn ffordd o ddal darparwyr i gyfrif am wella systemau.

Mae Pennod 2 yn mynd i'r afael â dyletswyddau crwneriaid a chanlyniadau posibl eu ymchwiliadau i farw-enedigaethau. Rydym yn rhagweld y bydd unrhyw benderfyniadau mae crwner yn eu gwneud yn adlewyrchu dyletswyddau presennol crwneriaid wrth ymchwilio i farwolaeth. Rydym yn cynnig y dylai crwneriaid ystyried a oes unrhyw wersi y gellid eu dysgu o ganlyniad i sut bu farw babi penodol, a allai helpu i atal marw-enedigaethau yn y dyfodol neu wella diogelwch menywod beichiog a'r gofal maen nhw'n ei gael. Os bydd y crwner yn penderfynu nad oes gwersi i'w dysgu yn dilyn cwest, dylid datgan hyn hefyd.

Mae Pennod 3 yn ystyried y gweithdrefnau mewn ymchwiliad crwner, gan gynnwys y gwaith o roi pethau mewn trefn rhwng ymchwiliadau crwner ac ymchwiliadau sydd heb eu cyfeirio at grwner. Rydym yn cynnig y dylai'r egwyddorion sy'n sail i'r ymchwiliadau i farw-enedigaethau adlewyrchu'r rheini sy'n sail i ymchwiliadau'r crwner i farwolaethau ar hyn o bryd. Pan mae ymchwiliadau i farw-enedigaethau sydd heb eu cyfeirio at grwner yn cael

eu cynnal (ac eithrio ymchwiliadau troseddol neu ymchwiliadau cyhoeddus), rydym yn cynnig bod y crwner yn cael bod yn gyfrifol am drefnu'r cwest er mwyn cwblhau ymchwiliadau eraill yn gyntaf, lle y bo hynny'n briodol. Rydym hefyd yn cynnig, pan fo unigolyn wedi'i gyhuddo o drosedd difa plentyn, neu unrhyw drosedd gysylltiedig â hynny neu'r farw-enedigaeth, neu fod ymchwiliad cyhoeddus i faterion cysylltiedig â chrwner yn ymchwilio i'r farw-enedigaeth, y dylai ymchwiliad y crwner gael ei atal dros dro nes bydd yr achosion troseddol neu'r ymchwiliad cyhoeddus wedi dod i ben. Rydym yn rhagweld y gallai ymchwiliadau crwneriaid ddefnyddio adroddiadau a chanfyddiadau ymchwiliadau heb eu cyfeirio at grwner yn helaeth.

Mae Pennod 4 yn edrych ar y pwerau mae crwner yn eu defnyddio wrth ymchwilio i farw-enedigaethau. Rydym yn cynnig y dylai crwneriaid fod â'r un pwerau â'r rhai sydd ganddynt mewn perthynas â marwolaethau ar hyn o bryd – gan gynnwys materion yng nghyswllt tystiolaeth, dogfennau a thystion, a gwneud cais am archwiliadau meddygol.

Ym Mhennod 5, byddwn yn ymchwilio i ba farw-enedigaethau ddylai fod yn rhan o ymchwiliad crwner. Rydym yn cynnig y dylai ymchwiliadau crwner fod wedi'u cyfyngu i farw-enedigaethau tymor llawn ac ôl-dymor, hynny yw, pob marw-enedigaeth lle mae hyd y beichiogrwydd yn 37 wythnos a 0 diwrnod neu fwy. Rydyn ni o'r farn mai'r is-set yma o farw-enedigaethau fydd yn esgor ar y dysgu mwyaf cyfoethog er mwyn sefydlu beth sy'n achosi marw-enedigaethau, p'un ai a fyddai gofal gwahanol wedi arwain at ganlyniadau gwahanol neu beidio, ac argymhell newidiadau i ymarfer clinigol a allai leihau'r risg o farw-enedigaethau tebyg.

Mae Pennod 6 yn edrych ar y broses o gofrestru marw-enedigaeth pan mae'n cael ei chyfeirio at y crwner. Rydym yn cynnig mai dim ond ar ôl i'r ymchwiliad ddod i ben y dylai marw-enedigaethau tymor ac ôl-dymor gael eu cofrestru.

Mae Pennod 7 yn nodi cyfres o gwestiynau penodol ynghylch effaith y cynigion a gyflwynwyd ym mhenodau 1 i 6.

Mae Pennod 8 yn cloi'r ymgynghoriad, ac yn gofyn am farn ynghylch ein cynigion yn unol â Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Rhagymadrodd

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar y cynigion ynghylch cyflwyno ymchwiliadau crwner i achosion o farw-enedigaethau yng Nghymru a Lloegr.

Mae papur ymgynghori Saesneg ar gael yn <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/coronial-investigations-of-stillbirths>.

Mae Asesiad o'r Effaith a gyhoeddwyd ar y cyd â'r ymgynghoriad hwn yn awgrymu bod ymgynghori ynghylch y polisi hwn yn debygol o effeithio ar y canlynol: rhieni plant marwanedig; crwneriaid, eu swyddogion a'u staff; y Prif Grwner; awdurdodau lleol; y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol (GRO) a chofrestrwyr; y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS); gwasanaethau patholeg y GIG; darparwyr gwasanaethau mamolaeth a'u staff; NHS Improvement; y Gangen Ymchwilio i Ddiogelwch Gofal Iechyd (HSIB); NHS Resolution (Lloegr) a Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru (NWSSP).

Mae'r cynigion hefyd yn debygol o arwain at gostau a/neu arbedion ychwanegol i'r sector cyhoeddus.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar gael yn: <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/coronial-investigations-of-stillbirths>.

Byddem yn croesawu sylwadau ar yr Asesiad o'r Effaith. Mae modd gweld cwestiynau penodol ynghylch yr Asesiad o'r Effaith ym mhenodau 7 ac 8 (t. 32 a 35 yn y drefn honno).

Bydd copïau o'r papur ymgynghori a'r Asesiad o'r Effaith yn cael eu hanfon at yr ymgynghoreion a restrir yn [Atodiad A](#). Ni fwriedir i'r rhestr hon gynnwys pawb na chau neb allan a byddwn yn croesawu ymatebion gan bawb sydd â diddordeb yng nghynnwys y papur hwn, neu sydd â safbwynt yn ei gylch.

Cefndir

1. Mae geirfa o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon ar gael yn [Atodiad C](#). Mae'r termau sydd wedi'u cynnwys yn yr eirfa wedi cael eu [hamlygu](#). Bydd clicio ar air wedi'i amlygu yn eich cyfeirio at ei ddiffiniad yn yr eirfa.
2. Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r brif wybodaeth gefndirol am ymchwiliadau crwneriaid, yr Uchelgais Beichiogrwydd Diogel Cenedlaethol a'r prosesau cyfredol ar gyfer ymchwilio i achosion marw-enedigaethau. Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch chi, mae rhestr lawn o ddolenni defnyddiol wedi'i darparu yn [Atodiad B](#).

Marw-enedigaethau a'r Uchelgais Beichiogrwydd Diogel Cenedlaethol

3. Mae [marw-enedigaeth babi](#) yn brofiad torcalonnus i rieni a theuluoedd. Bydd rhieni sydd wedi colli babi eisiau gwybod pam na chafodd eu babi ei eni'n fyw.
4. Ystyr marw-enedigaeth yw colli babi cyn yr enedigaeth neu yn ystod hynny. Mae camesgoriad a marw-enedigaeth ill dau yn fathau o golli beichiogrwydd, ond maent yn cael eu hystyried yn wahanol ar sail pryd caiff y babi ei golli. Mae Deddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953 yn rhoi diffiniad manwl o farw-enedigaeth sy'n nodi bod rhaid i'r beichiogrwydd fod wedi dod i ben ar ôl pedwaredd wythnos ar hugain y beichiogrwydd (sef o 24⁺⁰ wythnos ymlaen yn ystod y beichiogrwydd, h.y. 24 wythnos + 0 diwrnod).¹

Dywedir bod babanod sy'n farwanedig neu'n cael eu geni o **wythnos 37⁺⁰ y beichiogrwydd** ymlaen wedi cael eu geni ar ôl cyrraedd y '**tymor**' neu'r '**tymor llawn**'.² Dywedir eu bod yn farwanedig yn ystod y cyfnod '**ôl-dymor**' o **42⁺⁰ wythnos** ymlaen.

5. Yn 2016, cafwyd 3,112 o farw-enedigaethau yng Nghymru a Lloegr – sef 4.4 o bob 1,000 o enedigaethau, ac roedd 936 o'r rheini yn ystod y cyfnod ôl-dymor.³ Er bod y gyfradd marw-enedigaethau wedi bod yn gostwng ers yr 1980au a'i bod ar y lefel isaf erioed, mae Cymru a Lloegr ar ei hôl hi o'u cymharu â gwledydd eraill tebyg lle mae'r cyfraddau marw-enedigaethau yn is ac yn gostwng yn gyflymach.⁴

¹ At ddibenion eglurder, caiff hyd beichiogrwydd ei fynegi mewn wythnosau a diwrnodau drwy'r ddogfen hon. Bydd unrhyw gyfeiriad at (er enghraifft) **24⁺⁰ wythnos** yn golygu **24 wythnos + 0 diwrnod**.

² At ddibenion y ddogfen hon, mae 'tymor' a 'tymor llawn' yn golygu'r un peth ac mae modd eu cyfnewid.

³ Ffynhonnell: Gweler cyfeirnod 3 yn [Atodiad D](#), t. 53.

⁴ Ffynhonnell: Gweler cyfeirnod 11 yn [Atodiad D](#), t. 54.

Yn ôl bwletin ystadegol diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ynglŷn â nodweddion genedigaethau yng Nghymru a Lloegr, cafodd **2,830** babi ei eni'n farwanedig yn 2017, ac roedd **808** yn farwanedig ar ôl cyrraedd y tymor llawn neu'r cyfnod ôl-dymor,⁵ sy'n golygu bod y niferoedd wedi gostwng ers y ffigur uchod ar gyfer 2016. Ffigurau rhagarweiniol yw'r rhain, a disgwylir y bydd yr ystadegau terfynol yn cael eu cyhoeddi yn ystod tymor y gwanwyn 2019 fel rhan o fwletin ystadegol y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar farwolaethau plant yn 2017.

6. Ym mis Hydref 2015, fe wnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer lechyd bryd hynny bennu uchelgais cenedlaethol o haneru cyfradd y marw-enedigaethau, y marwolaethau newyddenedigol, y mamau sy'n marw a'r achosion o niwed i'r ymennydd sy'n digwydd yn ystod genedigaeth neu'n fuan ar ôl hynny. Ym mis Tachwedd 2017, fe gyhoeddodd yr Ysgrifennydd *Gofal Beichiogrwydd Mwy Diogel – Cynnydd a'r Camau Nesaf*, sef Strategaeth Beichiogrwydd Diogel y Llywodraeth ar ei newydd wedd, yn ogystal â dod â'r targed ar gyfer cyflawni Uchelgais Beichiogrwydd Diogel Cenedlaethol ymlaen o 2030 i 2025.

7. Fel rhan o'r cyhoeddiad hwn, fe wnaeth yr Adran lechyd a Gofal Cymdeithasol ymrwymo i weithio gyda'r Weinyddiaeth Cyfiawnder i ddatblygu cynigion yng nghyswllt crwneriaid yn ymchwilio i farw-enedigaethau.

Fel rhan o wella'r gwaith o ymchwilio i farw-enedigaethau a marwolaethau newyddenedigol a dysgu o hynny, bydd y Llywodraeth, ar y cyd â phartion â buddiant, yn ystyried sut gallai crwneriaid ymchwilio i fabanod marwanedig ar ôl cyrraedd y tymor llawn, h.y. 37 wythnos neu fwy i mewn i'r beichiogrwydd. Drwy wneud hynny, byddwn yn ymgysylltu â chydweithwyr yng Nghymru ynglŷn â sut byddai hyn yn effeithio ar y Weinyddiaeth Ddatganoledig yng Nghymru.

Gofal Beichiogrwydd Mwy Diogel – Cynnydd a'r Camau Nesaf, Tachwedd 2017⁶

8. Mae'r ymgynghoriad yn deillio o'r ymrwymiad hwn ac yn gofyn am safbwyntiau ynghylch y cynigion i gyflwyno ymchwiliadau crwneriaid i achosion o farw-enedigaeth.

Prosesau presennol ar gyfer ymchwilio i achosion marw-enedigaethau

9. Mae Canllawiau [Bwrdd Ansawdd Cenedlaethol](#) y GIG ynghylch Dysgu o Farwolaethau⁷ yn nodi bod rhaid i bob Ymddiriedolaeth y GIG neu Ymddiriedolaeth Sefydledig yn Lloegr fod â pholisi wedi'i gyhoeddi ynglŷn â sut mae'n adolygu (neu'n ymchwilio i) farwolaethau cleifion sy'n marw o dan eu rheolaeth a'u gofal, gan gynnwys marw-enedigaethau, a sut mae'n dysgu ohonynt.
10. Mae adolygiadau o nodiadau achos ac ymchwiliadau manwl yn galluogi sefydliadau a chlinigwyr y GIG i ddeall pam a sut digwyddodd y farw-enedigaeth, er mwyn dysgu gwersi a gwneud newidiadau i atal marwolaethau neu farw-enedigaethau o ganlyniad i achosion tebyg rhag digwydd eto.

⁵ Ffynhonnell: Gweler cyfeirnod 2 yn [Atodiad D](#), t. 53.

⁶ Ffynhonnell: Gweler cyfeirnod 4 yn [Atodiad D](#), t. 53.

⁷ Ffynhonnell: Gweler cyfeirnod 13 yn [Atodiad D](#), t. 54.

11. Mae Gwelliant y GIG yn annog staff gofal iechyd a'r cyhoedd i roi gwybod i'r [System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu](#) (NRLS) am [achosion yng nghyswllt diogelwch cleifion](#) (achosion anfwriadol neu annisgwyl sydd wedi, neu a allai fod wedi, arwain at niweidio un neu fwy o gleifion). Mae'n ofynnol bod sefydliadau'r GIG yng Nghymru yn rhoi gwybod i'r System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu am bob achos yng nghyswllt diogelwch cleifion, ac yn rheoli'r achosion hyn yn lleol o dan y cynllun [Gweithio i Wella](#),⁸ sef gweithdrefn GIG Cymru ar gyfer rheoli pryderon mae cleifion yn eu codi.
12. Lle mae digwyddiad wedi arwain at ganlyniadau sylweddol, neu ei fod yn gyfle gwych i ddysgu, dylid ei ystyried yn [Achos Difrifol](#). At y diben hwnnw, mae NHS England wedi sefydlu [Fframwaith Achosion Difrifol](#) (SIF)⁹ sy'n disgrifio'r broses a'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn er mwyn helpu i sicrhau bod Achosion Difrifol yn cael eu hadolygu neu eu harchwilio'n drylwyr a'n bod ni'n dysgu o'r profiadau hynny er mwyn atal achosion tebyg rhag digwydd eto. Mae sefydliadau'r GIG yng Nghymru hefyd yn defnyddio'r Fframwaith Achosion Difrifol, ond ei fod wedi'i addasu ar gyfer cyd-destun Cymru.
13. O dan y Fframwaith, yn y rhan fwyaf o achosion, caiff adolygiadau ac ymchwiliadau eu cynnal gan y sefydliad darparu gofal lle digwyddodd yr achos (h.y. Ymddiriedolaeth y GIG neu Ymddiriedolaeth Sefydledig). Dylai ymchwiliadau annibynnol (sy'n cael eu cynnal gan ymchwilywyr nad ydynt yn gweithio i'r darparwr gofal) gael eu comisiynu gan y [comisiynydd gofal](#) (ymchwiliad seiliedig ar ddarparwr sy'n edrych ar y gofal penodol a roddwyd i glaf neu gleifion gan un neu ragor o ddarparwyr) neu gan [Dimau Rhanbarthol NHS England](#) neu [Fyrddau Iechyd Lleol GIG Cymru](#) (lle mae angen ymchwiliad annibynnol ehangach i rôl y system gomisiynu neu i'r gwasanaethau ffurfweddu – fel arfer bydd angen ymateb rhanbarthol neu ganolog i ymchwiliadau o'r fath).
14. Mae'r Fframwaith yn nodi bod rhaid i dîm ymchwilio gynnal cyfarfod cynnar â'r teulu dan sylw i esbonio pa gamau sy'n cael eu cymryd, sut mae modd rhoi gwybodaeth iddynt, pa brosesau sydd ar waith a beth allant ei ddisgwyl o'r ymchwiliad. Mae'n rhaid i'r teulu gael y canlynol hefyd:
 - mynediad at yr wybodaeth angenrheidiol a chyfle i fynegi unrhyw bryderon a chwestiynau;
 - cyfle i gyfrannu at gylch gorchwyl yr ymchwiliadau a chopi o'r cylch gorchwyl er mwyn sicrhau bod eu cwestiynau'n cael eu hadlewyrchu;
 - cyfle i gyfrannu at y broses ymchwilio (e.e. drwy roi tystiolaeth);
 - mynediad at ganfyddiadau unrhyw ymchwiliad, gan gynnwys canlyniadau interim;
 - cyfle i ymateb i'r canfyddiadau a'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad terfynol a rhoi sylwadau arnynt, a bod yn fodlon y bydd hyn yn cael ei ystyried fel rhan o broses sicrhau ansawdd a chloi y comisiynydd.
15. I gynorthwyo darparwyr a chomisiynwyr y GIG â'u hymchwiliadau i Achosion Difrifol yng nghyswllt marw-enedigaethau neu farwolaethau newyddenedigol, mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr a Llywodraethau Cymru a'r Alban wedi

⁸ Ffynhonnell: Gweler cyfeirnod 15 yn [Atodiad D](#), t. 55.

⁹ Ffynhonnell: Gweler cyfeirnod 14 yn [Atodiad D](#), t. 54.

ariannu [MBRRACE-UK](#)¹⁰ ar y cyd er mwyn datblygu [Adnodd Adolygu Marwolaethau Amenedigol](#) (PMRT) safonol. Cafodd yr Adnodd ei lansio ym mis Chwefror 2018 ac mae'n cael ei ddefnyddio gan bob un o Ymddiriedolaethau'r GIG yn Lloegr a'r Byrddau Iechyd yng Nghymru gyda gwasanaethau newyddenedigol a mamolaeth er mwyn cynnal adolygiadau systematig, amlddisgyblaethol o ansawdd uchel o'r amgylchiadau a'r gofal sy'n amgylchynu ac yn arwain at bob marw-enedigaeth a marwolaeth newyddenedigol.

16. Ym mis Tachwedd 2017, fe wnaeth y Llywodraeth ddarparu cyllid ar gyfer y [Gangen Ymchwilio i Ddiogelwch Gofal Iechyd](#) (HSIB) i ddatblygu safonau ymchwilio a chynnal ymchwiliadau annibynnol i bob canlyniad beichiogrwydd yn Lloegr sy'n bodloni'r meini prawf o ran hysbysu Rhaglen [Each Baby Counts](#). Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a marwolaethau mamau. Mae'r rhain yn cynnwys marw-enedigaethau [yn ystod genedigaeth](#) tymor llawn, lle roedd yn hysbys bod y babi'n fyw ar ddechrau'r cyfnod esgor ond ei fod wedi cael ei eni heb [arwyddion o fywyd](#) o ganlyniad i achosion mae'n bosibl y byddai modd eu hosgoi yn ystod y cyfnod esgor neu'r enedigaeth. Nid yw marw-enedigaethau eraill sy'n digwydd ar ôl wythnos 37⁺⁰ y beichiogrwydd, ond cyn dechrau'r gofal yn ystod y cyfnod esgor, yn cael eu harchwilio'n annibynnol gan y Gangen. Nid oes gan y Gangen Ymchwilio i Ddiogelwch Gofal Iechyd gylch gwaith yng Nghymru.
17. Ym mis Ebrill 2018, dechreuodd y Gangen gyflwyno ymchwiliadau i famolaethau unigol fesul dipyn, a disgwylir y bydd y rhain ar waith ledled Lloegr erbyn Mawrth 2019. Mae ymchwiliadau mamolaeth y Gangen yn canolbwyntio ar ddysgu ac yn rhoi cofnod cyflawn i gleifion a theuluoedd o'r hyn a ddigwyddodd mewn achosion unigol. Maen nhw'n disodli ymchwiliadau Achosion Difrifol Ymddiriedolaethau NHS England, ond bydd Ymddiriedolaethau yn dal i gynnal ymchwiliadau i farw-enedigaethau gan ddefnyddio'r Adnodd Adolygu Marwolaethau Amenedigol. Yng Nghymru, bydd ymchwiliadau i Achosion Difrifol yn parhau ar ôl marw-enedigaethau.
18. Bydd y Gangen yn cynnwys teuluoedd drwy gydol yr ymchwiliad ac y mae wrthi'n datblygu gwasanaeth effeithiol ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd. Bydd adroddiad y Gangen ar ymchwiliadau mamolaeth yn cynnwys y cylch gorchwyl, y broses ymchwilio, y dystiolaeth a'r argymhellion ar gyfer gwella'r lefel sefydliadau a lefel genedlaethol. Dim ond â'r teulu, y sefydliad a chlinigwyr a oedd yn rhan o'r achos y bydd adroddiadau ynghylch achosion unigol yn cael eu rhannu.
19. Caiff y Gangen ei hariannu gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'i chynnal gan NHS Improvement, ac mae'n gweithredu'n annibynnol ar NHS England a sefydliadau eraill y GIG. Y mae hefyd yn annibynnol ar yr holl gyrrff rheoleiddio fel y [Comisiwn Ansawdd Gofal](#) (CQC).
20. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi deddfwriaeth ddrafft i sefydlu corff statudol annibynnol er mwyn symud gwaith y Gangen bresennol yn ei flaen. Mae unigolion wedi craffu ar y ddeddfwriaeth ddrafft cyn y broses ddeddfu, ac mae'r Cydbwyllgor a fu'n gyfrifol am yr adolygiad hwn wedi argymhell y dylid cydnabod mai cyfrifoldeb *NHS Improvement* yw'r modd y caiff ymchwiliadau mamolaeth eu cynnal.¹¹ Mewn ymateb i hyn, fe wnaeth y Llywodraeth nodi ei fwriad i ganiatáu i'r rhaglen bresennol ar gyfer

¹⁰ Mothers and Babies: Reducing Risk through Audits and Confidential Enquiries across the UK. Gweler y diffiniad yn yr eirfa (Atodiad C), t. 48.

¹¹ Ffynhonnell: Gweler cyfeirnod 10 yn Atodiad D, t. 54.

ymchwilio i feichiogrwydd gael ei chyflwyno ym mhob rhanbarth gofal iechyd yn Lloegr, a pharhau am gyfnod cyfyngedig er mwyn sicrhau y gellir dysgu o'r ymchwiliadau hyn a chael budd ohonynt, p'un ai a yw'r corff newydd wedi cael ei sefydlu yn y cyfamser ai peidio.¹²

21. Hefyd, cynigir cynnwys darpariaeth mewn Bil diwygiedig er mwyn caniatáu i gorff newydd ymgymryd â'r ymchwiliadau mamolaeth, ac y dylid bod yn hyblyg o ran am ba hyd y dylai ymchwiliadau mamolaeth barhau o dan gylch gwaith y corff newydd er mwyn gallu dysgu gwersi a phennu lle byddai modd defnyddio'r ymchwiliadau hyn orau yn y dyfodol. Bydd hyn yn sicrhau bod sefydlu corff newydd, yn ei hun, ddim yn dod â'r rhaglen i ben yn gynamserol, ac y dylid caniatáu i fuddiannau'r rhaglen gael eu gwireddu'n llawn.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am brosesau sy'n bodoli eisoes ar gyfer ymchwilio i achosion marw-enedigaethau drwy ddefnyddio'r **dolenni defnyddiol** yn [Atodiad B](#), t. 42.

22. Dros y blynyddoedd, mae rhai rhieni sydd wedi colli babi, elusennau a phartïon cysylltiedig eraill wedi galw am broses fwy annibynnol a thryloyw ar gyfer pennu achosion marw-enedigaethau, sy'n sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o brofiadau'r gorffennol. Mae rhai o'r rheini sy'n galw am newid wedi cynnig y byddai ymchwiliadau gan grwner sy'n cael eu cynnal mewn llys agored gan swyddogion barnwrol annibynnol yn opsiwn ar gyfer proses well, tra mae [Prif Grwner Cymru a Lloegr](#) wedi codi'r cwestiwn – a ddylai marw-enedigaethau fod yn achosion y dylid eu hadrodd – yn ei gynllun datblygu ar gyfer 2018-19. O dan ddeddfwriaeth ar wahân, mae gan grwneriaid yng Ngogledd Iwerddon bwerau i ymchwilio i farw-enedigaethau.
23. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Llywodraeth wedi bod yn ystyried y rôl, os o gwbl, y dylai crwneriaid yng Nghymru a Lloegr ei chael o ran ymchwilio i farw-enedigaethau a phennu eu hachosion.

Crwneriaid ac ymchwiliadau crwneriaid

24. Swydd-ddeiliaid barnwrol annibynnol sy'n ymchwilio i farwolaethau mewn amgylchiadau penodol yw [crwneriaid](#), er mwyn sefydlu pwy oedd y sawl sydd wedi marw, a phryd a lle y bu farw.
25. Mae crwneriaid yn cynnal [cwestau](#), sef ymchwiliadau cyhoeddus sy'n cynnwys rheithgor mewn rhai achosion prin. Maent yn dod i [gasgliad](#) (neu reithfarn yn y gorffennol) yn dilyn cwest. Pan fydd crwner yn galw ar reithgor, y rheithgor fydd yn pennu'r casgliad.
26. Nid yw crwneriaid yn cynnal ymchwiliadau i farwolaethau lle mae [meddyg cymwys sy'n trin yr achos](#) yn gallu cadarnhau beth oedd achos y farwolaeth a bod y farwolaeth yn naturiol, oni bai fod y sawl sydd wedi marw wedi marw mewn [cystodaeth](#) neu yng [nghaethiwed y wladwriaeth](#) fel arall. Ond, hyd yn oed pan mae'r meddyg yn gallu pennu rheswm pendant dros farwolaeth naturiol ac yn cyflwyno [Tystysgrif Feddygol yn Nodi Achos y Farwolaeth](#) (MCCD) i'r teulu, efallai

¹² Ffynhonnell: Gweler cyfeirnod 5 yn [Atodiad D](#), t. 53.

y bydd gofyn i'r crwner barhau i fod yn rhan o'r broses os oes unrhyw un yn poeni bod y farwolaeth yn amheus.

Yn 2017, cafodd 43% o'r holl farwolaethau yng Nghymru a Lloegr eu cyfeirio at grwner, ac fe gynhaliwyd cwest mewn perthynas â 14% o'r marwolaethau a gyfeiriwyd (6% o'r holl farwolaethau a gofrestrwyd).¹³

27. Er mwyn penderfynu a oes angen cynnal cwest mewn perthynas â marwolaeth, gall crwneriaid wneud [ymholiadau cychwynnol](#) ac efallai y bydd yn dechrau ymchwiliad. Os bydd y crwner yn dod i'r casgliad bod yr unigolyn wedi marw o achosion naturiol ar unrhyw adeg (a bod hyn heb ddigwydd mewn cystodaeth neu yng nghaethiwd y wladwriaeth), bydd yr ymchwiliad yn dod i ben a bydd adroddiad yn cael ei anfon at y [cofrestrydd](#). Lle bo archwiliad post-mortem wedi cael ei gynnal (gweler isod), bydd y cofrestrydd yn cofrestru'r farwolaeth heb Dystysgrif Feddygol yn Nodi Achos y Farwolaeth. Fel arall, bydd y crwner yn rhoi caniatâd i'r meddyg gyflwyno Tystysgrif Feddygol yn Nodi Achos y Farwolaeth.
28. Yn ystod eu hymchwiliadau, neu hyd yn oed yn ystod yr ymholiadau cychwynnol, gall crwneriaid wneud cais am [archwiliad post-mortem](#) meddygol o'r corff.¹⁴ Bydd crwneriaid yn comisiynu'r profion meddygol sydd fwyaf tebygol o ddarparu'r wybodaeth berthnasol ynglŷn ag achos y farwolaeth.

Yn 2017, gwnaethpwyd cais am archwiliad post-mortem ar gyfer 37% o'r holl farwolaethau a gyfeiriwyd at grwneriaid yng Nghymru a Lloegr.

29. Yn yr un modd, gall crwneriaid ofyn am fynediad at wahanol fathau o wybodaeth yn ystod ymchwiliad. Efallai y byddant yn gofyn i berson ddarparu datganiad ysgrifenedig, cynhyrchu unrhyw ddogfen berthnasol i'r ymchwiliad, neu gynhyrchu unrhyw beth arall sy'n berthnasol i'r ymchwiliad at ddibenion ymchwilio, archwilio neu brofi. Mae dyletswydd ar grwneriaid ddarparu copi o ddogfennau i [person â buddiant](#) sy'n gwneud cais amdanynt, yn amodol ar gyfyngiadau penodol. Gallai hyn gynnwys cofnodion meddygol y sawl sydd wedi marw.
30. Gellir cyflwyno casgliad '[byr](#)' os oes modd pennu achos y farwolaeth. Mewn achosion lle mae tystiolaeth annigonol, rhoddir [casgliad 'agored'](#). Weithiau bydd y crwner neu'r rheithgor yn cofnodi [casgliad 'naratif'](#) manylach am y farwolaeth.
31. Caiff crwner neu reithgor ei atal yn gyfreithiol rhag dosrannu bai neu bennu atebolrwydd sifil neu droseddol. Fodd bynnag, gellir defnyddio'r ffeithiau a gyflwynir mewn cwest, neu gasgliad y crwner neu'r rheithgor, fel tystiolaeth mewn achosion sifil neu droseddol ar wahân.
32. Mae'n rhaid i grwner atal ei ymchwiliad dros dro, yn unol â gofynion awdurdod erlyn, mewn achosion lle mae rhywun wedi cael ei gyhuddo o drosedd sy'n ymwneud â'r farwolaeth mae'r crwner yn ymchwilio iddi. Mae'r un peth yn berthnasol os bydd y crwner yn dod i wybod bod rhywun sydd wedi'i gyhuddo o ladd wedi ymddangos o

¹³ Ffynhonnell: Gweler cyfeirnod 1 yn [Atodiad D](#), t. 53.

¹⁴ At ddibenion y cynigion yn y ddogfen hon, cyfeirir at hyn fel 'archwiliad meddygol' mewn perthynas â babi marwanedig.

flaen llys ynadon neu fod rhywun wedi'i gyhuddo o dditiad (h.y. ei gyhuddo o drosedd a fydd yn cael ei rhoi ar brawf yn Llys y Goron; trosedd sy'n cael ei hystyried yn ddifrifol fel arfer). Mewn achosion o'r fath, mae'n rhaid gohirio unrhyw gwest.

33. Yn yr un modd, mae'n rhaid i grwner ohirio cwest a rhoi gwybod i'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus os yw'n ymddangos bod y farwolaeth wedi digwydd yn sgil lladdiad, a'i bod yn bosibl y bydd unigolyn yn cael ei gyhuddo mewn perthynas â'r drosedd.
34. Lle mae unrhyw beth sy'n cael ei ddatgelu yn ymchwiliad y crwner, neu yn y cwest, yn peri risg y gallai marwolaethau tebyg ddigwydd o dan amgylchiadau tebyg, bydd y crwner yn cyflwyno [adroddiad i Atal Marwolaethau yn y Dyfodol](#) (PFD) (gelwir hwn yn 'adroddiad Rheoliad 28' weithiau) i'r rheini a allai liniaru'r risg honno. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith bod rhaid i unrhyw un y cyflwynir adroddiad Atal Marwolaethau yn y Dyfodol iddo ymateb yn ysgrifenedig gan nodi pa gamau y mae wedi'u cymryd, neu'n bwriadu eu cymryd, mewn ymateb i'r adroddiad.
35. O dan ddeddfwriaeth bresennol, ni all crwneriaid ymchwilio i farwolaethau pan mae'n hysbys na chafodd y babi ei eni'n fyw. Os oes unrhyw amheuaeth p'un ai a gafodd y babi ei eni'n fyw ai peidio, gall crwner gynnal ymchwiliad (a allai olygu cynnal cwest), ond byddai'n rhaid dod â'r ymchwiliad hwnnw i ben pe bai'n dod i'r casgliad bod y babi'n farwanedig.

Mewn tua dwys neu lai o achosion bob blwyddyn, mae ymchwiliad i farwolaeth babi newydd-anedig yn arwain at gwest sy'n dod i'r casgliad bod y babi'n farwanedig mewn gwirionedd.

36. Mae rhagor o wybodaeth am rôl crwneriaid ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg yn: <https://www.gov.uk/government/publications/guide-to-coroner-services-and-coroner-investigations-a-short-guide>.

Y cynigion

37. Mae'r penodau canlynol yn nodi'r achos dros gyflwyno ymchwiliadau crwner i farw-enedigaethau a chynigion ynglŷn â sut byddai modd cynnal y rhain. Mae modd gweld cwestiynau penodol am yr ymgynghoriad ar ddiwedd pob pennod, ac maent wedi'u casglu at ei gilydd mewn holiadur yn [Atodiad D](#) hefyd.

Pennod 1 – Galw am ymchwiliadau crwner i farw-enedigaethau

38. Mae'r bennod hon yn ystyried y bylchau y gallai crwneriaid eu llenwi yn y prosesau presennol ar gyfer ymchwilio i farw-enedigaethau annisgwyl.
39. Mae rhaglenni adolygu cenedlaethol fel [Ymholiadau Cyfrinachol ynghylch Morbidrwydd a Marwolaeth Amenedigol](#)¹⁵ MBRACE-UK a rhaglen [Each Baby Counts](#) Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr¹⁶ wedi canfod bod lle i wella ansawdd ymchwiliadau i amgylchiadau sydd wedi arwain at farw-enedigaethau y mae modd eu hosgoi.
40. Mae rhieni ac elusennau rydym wedi siarad â nhw wedi pwysleisio bod angen mwy o sicrwydd bod y broses ymchwilio yn annibynnol a thryloyw ac yn rhoi'r cyfle i rieni glywed yr holl dystiolaeth o'r ffeithiau sydd wedi arwain at farw-enedigaeth annisgwyl eu babi. Maen nhw hefyd wedi galw am system sy'n sicrhau bod gwersi yn cael eu dysgu o brofiadau blaenorol ac yn cael eu rhannu.
41. Felly, dyma'r amcanion polisi sy'n sail i'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn:
- darparu asesiad annibynnol o'r ffeithiau am y farw-enedigaeth sy'n cael ei hymchwilio a'i hachosion;
 - cynnal ymchwiliadau tryloyw sy'n rhoi cyfle i rieni fynegi eu barn ar yr amgylchiadau a arweiniodd at farw-enedigaeth eu babi, yn ogystal ag ymgysylltu â nhw a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt drwy gydol y broses;
 - cyfrannu at ddysgu am achosion marw-enedigaethau a'r amgylchiadau sy'n arwain atynt ledled y system, gyda'r gobaith o gyfrannu at yr ymdrechion i wella canlyniadau beichiogrwydd yn y system iechyd yn ehangach.
42. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r ymchwiliadau mae gwasanaethau iechyd lleol wedi'u cynnal yng nghyswllt marwolaethau a marw-enedigaethau wedi bod yn fwyfwy tryloyw ac wedi'u hategu gan ystod gryfach fyth o fesurau diogelu gweithdrefnol. Roedd y *Canllawiau Cenedlaethol ar Ddysgu o Farwolaethau a gyhoeddwyd* ym mis Mawrth 2017 yn pennu fframwaith cenedlaethol ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG ac Ymddiriedolaethau Sefydledig o ran canfod marwolaethau mewn gofal, eu cofnodi, ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt.¹⁷ Ym mis Hydref 2018, cyhoeddwyd canllawiau ategol ynghylch cynnal adolygiadau o

¹⁵ Ffynhonnell: Gweler cyfeirnod 7 yn [Atodiad D](#), t.54.

¹⁶ Ffynhonnell: Gweler cyfeirnod 18 yn [Atodiad D](#), t. 55.

¹⁷ Ffynhonnell: Gweler cyfeirnod 14 yn [Atodiad D](#), t. 54.

farwolaethau plant yn Lloegr, a oedd wedi'u llunio i safoni ymarfer cenedlaethol a galluogi dysgu thematig er mwyn atal marwolaethau yn y dyfodol.¹⁸

43. Hefyd, o fis Ebrill 2019 ymlaen, bydd [archwilwyr meddygol](#) yn cael eu cyflwyno yn y GIG er mwyn craffu ar achosion y marwolaethau sydd wedi'u cofnodi ar y Dystysgrif Feddygol yn Nodi Achos y Farwolaeth. Y gobaith yw y bydd pob marwolaeth sydd heb ei chyfeirio at grwner yn cael ei hadolygu gan archwilydd meddygol yn y pen draw. Bydd y system newydd yn darparu gwasanaeth mwy tryloyw i'r rheini sydd wedi colli anwyliaid, ac yn rhoi cyfle iddynt fynegi eu pryderon.
 44. Fodd bynnag, ni fydd y gwaith craffu annibynnol arfaethedig yn cynnwys marw-enedigaethau fel mae'n sefyll. Bydd archwilwyr meddygol yn rhan o'r gwaith o ardystio marwolaethau naturiol yn unig.¹⁹ Mewn perthynas â marw-enedigaethau, rydym yn credu y byddai'n anymarferol gwahaniaethu rhwng achosion naturiol a heb fod yn naturiol. Trafodir hyn ymhellach ym Mhennod 5.
 45. Er mai prif rôl archwilwyr meddygol fydd craffu ar achosion marwolaethau naturiol, byddant hefyd yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion cyfreithiol a gweithdrefnol sy'n gysylltiedig â'r prosesau ardystio presennol, y prosesau diwygiedig arfaethedig, ymchwiliadau crwneriaid a'r broses cofrestru marwolaethau. Bydd gan archwilwyr meddygol wybodaeth am systemau llywodraethu clinigol lleol a chenedlaethol, yn ogystal â dealltwriaeth o sut gall archwilwyr meddygol weithio ar y cyd i wella diogelwch cleifion drwy adnabod perfformiad clinigol a sefydliadol sy'n is na'r safon ddelfrydol.
- Gallwch gael rhagor o wybodaeth am archwilwyr meddygol drwy ddefnyddio'r **dolenni defnyddiol** yn [Atodiad B](#), t. 42.
46. Fel swydd-ddeiliaid barnwrol, mae crwneriaid yn darparu gwasanaeth craffu annibynnol ar gyfer pob marwolaeth y mae'n rhaid iddyn nhw ymchwilio iddi, gan gasglu'r ffeithiau am yr amgylchiadau a'r hyn a arweiniodd at y farwolaeth honno. Caiff eu dyletswydd ei hategu gan nifer o bwerau a mesurau diogelwch wedi'u nodi mewn statud, sy'n cefnogi proses dryloyw a diduedd.
 47. Rydyn ni'n cynnig y dylai crwneriaid, yn unol â'u rôl a'u dyletswyddau mewn perthynas â marwolaeth person byw, graffu ar farw-enedigaethau mewn modd barnwrol ac annibynnol. Rydym o'r farn y gallant roi cyfrif awdurdodedig a thryloyw i rieni o'r hyn a ddigwyddodd i'w babi, a fydd yn rhoi mwy o hyder i'r cyhoedd.
 48. Ar ben hynny, er bod cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud o ran gwneud y broses o ddysgu am achosion marw-enedigaethau yn systematig ac yn syml, mae angen gwneud rhagor o waith i wella'r hyn y gellir ei ddysgu o bob marw-enedigaeth er mwyn sicrhau – lle mae modd newid gofal mamolaeth i atal marw-enedigaethau tebyg y mae modd eu hosgoi – bod y camau hynny yn cael eu rhannu a'u mabwysiadu gan bob darparwr gwasanaethau mamolaeth.

¹⁸ Ffynhonnell: Gweler cyfeirnod 9 yn [Atodiad D](#), t. 54.

¹⁹ Ac eithrio achosion pan mae'r unigolyn dan sylw wedi marw mewn cystodaeth neu yng nghaethiwed y wladwriaeth.

49. Rydym o'r farn bod gan grwneriaid y sgiliau a'r profiad yn sgil eu swyddogaethau statudol presennol, sy'n eu gwneud yn gymwys i fwrw ymlaen â dull diwygiedig o ymchwilio i farw-enedigaethau. Rydym yn credu y byddai'r dull hwn yn annibynnol a thryloyw ac yn ychwanegu gwerth at brosesau gwella ansawdd systemau mamolaeth lleol a chenedlaethol.
50. Os bydd crwneriaid yn ymchwilio i farw-enedigaethau, rydym yn cynnig y dylai'r ymchwiliadau hyn adlewyrchu'r rheolau a'r egwyddorion sy'n sail i broses y crwneriaid ar hyn bryd. Mae'r rhain yn cynnwys y rheolau sy'n ymwneud â chynnal cwest a phwerau crwneriaid o ran cael mynediad at dystiolaeth.

Cwestiynau 1 – 2

C1. Ydych chi'n credu y dylai crwneriaid fod yn rhan o'r gwaith o ymchwilio i farw-enedigaethau? Rhowch resymau.

C2. Ydych chi o'r farn y byddai ymchwiliadau crwner i farw-enedigaethau yn cyflawni'r amcanion polisi a nodir ym mharagraff 41? A oes unrhyw amcanion polisi eraill y dylem eu hystyried o ran gwella'r systemau ar gyfer pennu achosion marw-enedigaethau a darparu gwasanaethau gwell?

Pennod 2 – Dyletswyddau'r crwner a chanlyniadau'r ymchwiliad

51. Mae'r bennod hon yn mynd i'r afael â dyletswyddau crwneriaid a chanlyniadau posibl eu hymchwiliadau i farw-enedigaethau. Mae'n ystyried cwestiynau am yr hyn y byddai modd gofyn i grwneriaid ei wneud a sut gallai crwneriaid rannu unrhyw bwyntiau dysgu ac argymhellion.
52. O dan adran 5 Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009, mae crwner yn gyfrifol am ymchwilio i farwolaethau annisgwyl er mwyn canfod **pwyl** sydd wedi marw, a **sut**, **pryd** a **ble** y buon nhw farw. O dan Atodlen 5 y Ddeddf, mae crwner yn gyfrifol am roi gwybod i unrhyw un sy'n gallu cymryd camau i atal marwolaethau yn y dyfodol pryd bynnag y bydd ei ymchwiliad yn codi pryderon ynghylch amgylchiadau sy'n rhoi bywydau pobl eraill mewn perygl. Bydd dyletswydd ar y sawl sy'n cael [adroddiad i Atal Marwolaethau yn y Dyfodol](#) (PFD) (a gaiff ei egluro ym mharagraff 34 uchod) i ymateb yn ysgrifenedig i gadarnhau pa gamau y mae wedi'u cymryd.
53. Rydyn ni'n cynnig, lle mae dyletswydd newydd yn cael ei roi ar y crwner i ymchwilio i farw-enedigaeth, y dylid darparu cyfrifoldebau cyfwerth, ond eu haddasu i adlewyrchu'r amcanion polisi a nodir yn flaenorol ym Mhennod 1.
54. Rydyn ni o'r farn y dylai penderfyniadau'r crwner roi cyfrif trylwyr o'r amgylchiadau a arweiniodd at farw-enedigaeth babi, a nodi unrhyw wersi y gellid eu cymhwyso i feichiogrwydd yn y dyfodol (y fam dan sylw), i ddarpariaeth gwasanaethau mamolaeth yn fwy cyffredinol (comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau mamolaeth lleol a chenedlaethol) ac i unrhyw wasanaeth perthnasol arall (e.e. gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu lle y bo hynny'n briodol). Gallai'r penderfyniadau gynnwys y canlynol:

Pwyl	Byddai'r crwner yn ceisio canfod pwyl yw mam y babi marwanedig ac enw'r babi, os oes ganddo un. Byddai hyn yn sicrhau bod modd adnabod y babi bob amser, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.
Sut	Byddai'r crwner yn ceisio canfod sut cafodd y babi ei eni'n farwanedig a, drwy wneud hynny, yn ceisio nodi pwyntiau dysgu allweddol ar gyfer darparwyr gofal mamolaeth a darpar famau.
Pryd	Byddai'r crwner yn ceisio canfod pryd fu farw'r ffetws . Mae tystiolaeth yn dangos ei bod yn aml yn anodd pennu'r amser penodol y bu'r ffetws farw felly byddai'r ddyletswydd yn caniatáu i'r crwner ddod i gasgliad drwy nodi'r cyfnod tebygol y bu'r ffetws farw. Byddai'r crwner hefyd yn canfod pryd rhoddwyd genedigaeth i'r babi yn farwanedig.
Ble	Byddai'r crwner yn ceisio canfod ble oedd y fam pan fu'r ffetws farw, neu yn ystod y cyfnod mae'n debygol fod hynny wedi digwydd, a ble oedd hi pan roddodd enedigaeth i'r babi marwanedig.

55. Yn ogystal â'r penderfyniadau hyn, sy'n adlewyrchu dyletswydd bresennol y crwner wrth ymchwilio i farwolaeth, rydym yn credu y dylai crwneriaid ystyried a fyddai modd dysgu unrhyw wersi a allai atal marw-enedigaeth yn y dyfodol, neu wella diogelwch menywod beichiog a'r gofal a roddir iddynt. Os bydd y crwner yn penderfynu nad oes gwersi i'w dysgu yn dilyn cwest, dylai ddatgan hyn yn ei gasgliadau.

56. Os bydd y crwner yn dod i'r casgliad bod gwersi i'w dysgu, rydym yn credu y dylai wneud argymhellion priodol i unrhyw unigolyn neu sefydliad (gan gynnwys y rheini nad ydynt yn rhan o'r achos) a fyddai'n cael budd o'r argymhellion hynny (e.e. meddygon, sefydliadau clinigol proffesiynol, academyddion ac ati) ac i unrhyw un y mae'r crwner wedi nodi bod ganddo'r awdurdod i roi'r rhain ar waith (e.e. Ymddiriedolaeth y GIG neu Brif Weithredwyr Byrddau Iechyd).
57. Ar hyn o bryd, pan gaiff rhywbeth ei ddatgelu mewn ymchwiliad sy'n awgrymu y gallai marwolaethau eraill ddigwydd o dan amgylchiadau tebyg, gall y crwner roi gwybod am ei bryderon i unrhyw sefydliad neu unigolyn y mae'r crwner o'r farn ei fod mewn safle i leihau'r risg honno neu ei dileu, drwy gyflwyno adroddiad Atal Marwolaethau yn y Dyfodol (PFD) – gweler paragraffau 34 a 52 uchod. Efallai na fydd adroddiad i Atal Marwolaethau yn y Dyfodol yn gwneud argymhellion ffurfiol i'r sefydliadau neu'r unigolion y mae'n cael ei anfon atynt.

Cwestiynau 3 – 9

C3. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig ynglŷn â chanfod pwy yw mam y babi marwanedig ac enw'r babi, os rhoddwyd un iddo? Ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth arall y dylid ei ystyried?

C4. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig ynglŷn â chanfod sut cafodd y babi ei eni'n farwanedig? Ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth arall y dylid ei ystyried?

C5. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig ynglŷn â chanfod pryd y bu farw'r ffetws, neu bryd mae'n debygol fod hynny wedi digwydd, a phryd cafodd y babi ei eni'n farwanedig? Ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth arall y dylid ei ystyried?

C6. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig ynglŷn â chanfod ble bu farw'r ffetws, neu bryd mae'n debygol fod hynny wedi digwydd, a ble cafodd y babi marwanedig ei eni? Ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth arall y dylid ei ystyried?

C7. Ydych chi'n cytuno y dylai crwneriaid, fel rhan o'u canfyddiadau, nodi pwyntiau dysgu allweddol a chyflwyno argymhellion i'r bobl a'r cyrff maent yn eu hystyried yn berthnasol? Os nad ydych chi, sut ydych chi'n meddwl dylai crwneriaid rannu pwyntiau dysgu?

C8. Y tu hwnt i nodi pwyntiau dysgu mewn achosion unigol, ydych chi'n meddwl y dylai crwneriaid fod yn rhan o'r gwaith o hybu arferion gorau ym maes gofal cynenedigol?

C9. A oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei weld yn deillio o ymchwiliad crwner i farw-enedigaeth? Pa benderfyniadau eraill y dylid eu gwneud?

Pennod 3 – Gweithdrefnau a chysylltiadau ag ymchwiliadau heb eu cyfeirio at grwner

58. Mae'r bennod hon yn ystyried y gweithdrefnau mewn ymchwiliad crwner, gan gynnwys y gwaith o roi pethau mewn trefn rhwng ymchwiliadau crwner ac ymchwiliadau heb eu cyfeirio at grwner. Caiff pwerau'r crwner eu trafod ym Mhennod 4.

Trefniadau gweithdrefnol ar gyfer ymchwiliad crwner i farw-enedigaeth

59. Rydym yn cynnig y dylai'r egwyddorion sy'n sail i ymchwiliadau crwner i farw-enedigaethau adlewyrchu'r agweddau sylfaenol sy'n sail i ymchwiliadau crwner i farwolaethau ar hyn o bryd. Felly, byddai'r rheolau yng nghyswllt agor a chynnal ymchwiliad i farw-enedigaeth babi yn debyg i'r rheolau sy'n bodoli eisoes yng nghyswllt ymchwiliadau i farwolaethau.
60. Caiff awdurdodaeth crwneriaid ei phennu mewn statud sy'n nodi'r amgylchiadau y mae'n rhaid cynnal ymchwiliad yn unol â nhw. Nid oes gan y crwner ddisgresiwn o ran p'un ai a ddylid ymchwilio i farwolaeth ai peidio. Does dim angen i [bobl â buddiant](#), fel teulu'r sawl sydd wedi marw, roi caniatâd na chymeradwyaeth i'r crwner ymchwilio i farwolaeth.
61. Rydym wedi ystyried a ddylai rhieni babi marwanedig gael dewis a ddylid cynnal ymchwiliad crwner a cwest. Rydyn ni o'r farn nad oes gwahaniaeth mewn egwyddor rhwng cwest i farwolaeth babi sydd wedi'i eni'n ddiweddar a babi marwanedig. Lle mae dyletswydd i ymchwilio, dylid cynnal cwest. Yn yr un modd, dim ond os bydd statud yn rhagnodi hynny y ceir atal cwest dros dro.
62. Rydym yn deall, os bydd cwest yn cael ei gynnal, y bydd hynny'n digwydd mewn cyfnod sensitif iawn i'r teuluoedd. Byddai crwneriaid, ynghyd â'u swyddogion a'u staff, yn sicrhau bod rhieni yn cael yr holl wybodaeth briodol a bod rhywun yn gwrando arnynt drwy gydol y broses. Efallai y bydd sefydliadau fel [Gwasanaeth Cefnogi Llysoedd y Crwneriaid](#) (CCSS), a sefydliadau arbenigol, yn gallu rhoi cymorth i rieni.

Cysylltiadau rhwng ymchwiliadau crwner ac ymchwiliadau heb eu cyfeirio at grwner

63. Yn dilyn marwolaeth person, mae'n bosibl y ceir amryw o wahanol ymchwiliadau sy'n mynd i'r afael â rhai, neu bob un, o'r penderfyniadau statudol y mae'n rhaid i'r crwner eu gwneud. Efallai mai asiantau a oedd yn ymwneud â'r person marw cyn y farwolaeth fydd yn cynnal y rhain, neu eu rheoleiddwyr neu eu harolygiaethau (fel darparwyr iechyd a gwasanaethau cymdeithasol), neu'r rheini sydd â dyletswyddau statudol i ymchwilio i ddamweiniau neu droseddau (fel yr heddlu). Mae'r ymchwiliadau hyn ar wahân i ymchwiliad y crwner ac mae eu canfyddiadau yn aml yn rhan o'r dystiolaeth y bydd crwner yn ei defnyddio yn ei ymchwiliad ac yn y cwest.
64. Rydym yn cynnig y dylai crwneriaid agor cwest ar ôl sefydlu bod eu dyletswydd i ymchwilio yn berthnasol. Fodd bynnag, rydym yn cynnig bod crwneriaid yn cael bod yn gyfrifol am bennu'r amserlen ar gyfer cynnal y cwest, er mwyn dod ag ymchwiliadau beichiogrwydd y GIG a/neu'r Gangen Ymchwilio i Ddiogelwch Gofal Iechyd i ben yn gyntaf. Yn ymarferol, gallai ymchwiliadau crwner ddefnyddio adroddiadau a chanfyddiadau'r GIG a'r Gangen yn helaeth.

65. Mae gan y crwner bwerau a dyletswyddau i atal ymchwiliad i farwolaeth dros dro (ac ailgydio ynddo) mewn rhai amgylchiadau cysylltiedig ag ymchwiliadau ac erlyniadau troseddol²⁰ yn ogystal ag ymchwiliadau cyhoeddus o dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005. Caiff y rhain eu nodi yn Atodlen 1 Deddf 2009.
66. Er mai ein pwrpas wrth ystyried ymchwiliadau crwner i farw-enedigaethau yw darparu ymchwiliad annibynnol a thryloyw i rieni, sy'n cyfrannu at wella gwasanaethau mamolaeth yn barhaus, rydym yn cydnabod y gall marw-enedigaeth fod wedi'i achosi o ganlyniad i weithredoedd neu anweithredoedd troseddol mewn nifer bach o achosion.
67. Rydym yn cynnig rhoi dyletswydd ar grwner i atal ei ymchwiliad dros dro os bydd rhywun yn cael ei gyhuddo o drosedd [difa plentyn](#) neu unrhyw drosedd gysylltiedig â hynny neu'r farw-enedigaeth, gan gynnwys unrhyw drosedd sy'n ymwneud â chenhedlu'r babi marwanedig. Ni ddylid ailgydio yn ymchwiliad y crwner nes bydd yr achosion troseddol wedi dod i ben, ac eithrio achosion lle nad yw'r awdurdod erlyn perthnasol yn gwrthwynebu i fwrw ymlaen â'r ymchwiliad.
68. Mewn ychydig iawn o achosion, efallai y bydd ymchwiliad cyhoeddus yn ymchwilio i'r materion cysylltiedig â marw-enedigaeth. Yn unol â'r sefyllfa bresennol o ran ymchwiliadau crwner i farwolaeth, rydyn ni'n cynnig y dylai crwner atal ymchwiliad i'r farw-enedigaeth berthnasol dros dro, nes daw'r ymchwiliad cyhoeddus i ganlyniad.

Cwestiynau 10 – 12

C10. Ydych chi'n cytuno nad oes angen i'r rhieni sydd wedi colli babi, nac unrhyw un arall, roi cydsyniad na chaniatâd i grwner gynnal ymchwiliad i farw-enedigaeth? Rhowch resymau.

C11. Ydych chi'n cytuno y dylai dyletswydd crwner i gynnal cwest fod yn berthnasol i ymchwiliadau i farw-enedigaethau? Rhowch resymau.

C12. Ydych chi'n cytuno â'r cynigion ynglŷn â'r cysylltiadau a'r gwaith o roi pethau mewn trefn rhwng ymchwiliadau crwner ac ymchwiliadau heb eu cyfeirio at grwner? Rhowch resymau.

²⁰ Gweler paragraffau 32 a 33 yn yr adran Cefndir, t. 13-14.

Pennod 4 – Pwerau'r crwner

69. Mae'r bennod hon yn edrych ar y pwerau a fyddai'n cael eu harfer gan grwneriaid wrth ymchwilio i farw-enedigaethau.
70. Nodir manylion pwerau presennol crwneriaid yn Atodlen 5 Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009. Mae'r pwerau hyn yn caniatáu i grwner ysgwyddo gwarchodaeth gyfreithiol dros y corff a gofyn am gynnal profion meddygol arno, gan gynnwys archwiliad post-mortem. Maent hefyd yn rhoi pwerau i'r crwner orchymyn bod dogfennau, ac unrhyw dystiolaeth arall y mae'n ei hystyried yn berthnasol i'r ymchwiliad, yn cael eu datgelu.
71. Gall crwneriaid hefyd alw ar dystion i roi tystiolaeth mewn cwest. Bydd rhwymedigaeth ar unrhyw un y mae'r crwner yn galw arno i roi tystiolaeth i gydymffurfio â'r cais hwnnw, oni bai fod hynny o dan amgylchiadau cyfyngedig penodol a nodir yn Neddf 2009. Mae dyletswydd ar y crwner i ganiatáu i unrhyw berson â buddiant²¹ holi unrhyw dyst ond mae'n rhaid iddo wrthod unrhyw gwestiwn a ofynnir i'r tyst sy'n amherthnasol ym marn y crwner. Does dim rhwymedigaeth ar dyst mewn cwest i ateb unrhyw gwestiwn sy'n ymwneud â hunanargyhuddiad.
72. Mae'r pwerau hyn yn helpu'r crwner i gyflawni ei ddyletswydd statudol i ymchwilio i farwolaethau penodol (h.y. rhai treisgar, annaturiol neu lle mae achos y farwolaeth yn anhysbys) ac yn ei helpu i roi'r darlun mwyaf cynhwysfawr posibl o sut bu farw'r person.
73. Yng nghyswllt marw-enedigaethau, rydym yn credu y dylai crwneriaid fod â set gyfwerth o bwerau ac yn cynnig y dylai crwneriaid fod â'r hawl i gymryd meddiant cyfreithiol o'r babi marwanedig a'r brych. Mae patholeg y brych yn rhan bwysig o'r gwaith o ganfod achosion marw-enedigaethau ac yn darparu gwybodaeth werthfawr am sut byddai modd atal marw-enedigaethau yn y dyfodol. Cafodd 28.8% o'r marw-enedigaethau yn 2016 eu hachosi gan fater yn ymwneud â'r brych.²²
74. Rydym yn cynnig bod crwneriaid yn cael pwerau i ofyn am archwilio'r babi marwanedig a chynnal profion arno a/neu'r brych, at ddibenion gwneud y penderfyniadau statudol a ddisgrifir ym Mhennod 3.
75. Rydym yn deall y bydd rhai rhieni yn poeni bod y penderfyniadau ynghylch cynnal cwest yn cynnwys cynnal archwiliadau meddygol ar eu babi marwanedig. Rydym wedi ystyried y mater yn ofalus ac, yn ein barn ni, mae hyn yn hollbwysig er mwyn gwarantu bod ymchwiliad crwner yn annibynnol a gwneud yn siŵr bod gan y crwner fynediad at yr wybodaeth a'r dystiolaeth angenrheidiol i gyflawni ei ddyletswydd statudol, fel y gwna mewn ymchwiliadau i farwolaeth babi newydd-anedig.
76. Rydym hefyd yn deall y bydd rhai clinigwyr yn poeni y gallai cynnal ymchwiliadau crwner arwain at oedi cyn cael canlyniadau archwiliadau meddygol, a allai ychwanegu at ofid y teuluoedd ac atal clinigwyr rhag rhoi cymorth ystyrlon i'r teuluoedd yr effeithir arnynt, yn enwedig menywod sy'n feichiog eto.

²¹ O fewn ystyr adran 47 o Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009. Gweler '[person â buddiant](#)' yn yr eirfa (Atodiad C), t. 47.

²² Ffynhonnell: Gweler cyfeirnod 6 yn Atodiad D, t. 53.

77. Fel pobl â buddiant,²³ byddai gan y ddau riant a'r clinigwyr hawl i wneud cais am gopiâu o adroddiad unrhyw archwiliad meddygol sydd wedi'i gynnal fel rhan o'r ymchwiliad, a chopïau o unrhyw ddogfennau perthnasol i'r ymchwiliad, hyd yn oed yn ystod yr ymchwiliad a chyn dod i gasgliad.

Cwestiynau 13 – 16

C13. Ydych chi o'r farn y dylai crwneriaid fod â'r un pwerau mewn ymchwiliadau i farw-enedigaethau â'r rhai sydd ganddynt mewn ymchwiliadau i farwolaethau ar hyn o bryd – o ran tystiolaeth, dogfennau a thystion, a gofyn am archwiliadau meddygol? Rhowch resymau.

C14. Pa bwerau eraill, os o gwbl, ddylai crwneriaid eu defnyddio er mwyn helpu eu hymchwiliadau i farw-enedigaethau?

C15. Ydych chi'n meddwl ei bod yn briodol i grwneriaid gymryd meddiant cyfreithiol o'r brych? Os nad ydych chi, pam?

C16. Ydych chi'n cytuno y dylai crwneriaid gael cydsyniad neu ganiatâd gan drydydd parti er mwyn defnyddio eu pwerau, ac eithrio pan mae rheolau eisoes ar waith yng nghyswllt gofyniad o'r fath? Rhowch resymau.

²³ O fewn ystyr adran 47 o Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009. Gweler '[person â buddiant](#)' yn yr eirfa ([Atodiad C](#)), t. 47.

Pennod 5 – Cwmpas awdurdodaeth crwner mewn achosion o farw-enedigaeth

78. Mae'r bennod hon yn ystyried pa farw-enedigaethau y dylid eu cynnwys yng nghwmpas ymchwiliad y crwner. Caiff y prif gysyniadau sy'n cael eu defnyddio yn y bennod hon eu hesbonio'n fras isod.

Prif gysyniadau

Marw-enedigaeth cyn-tymor, tymor llawn, ac ôl-dymor

79. Caiff **hyd beichiogrwydd** (y cyfnod o ddiwrnod cyntaf y mislif diwethaf) ei fynegi mewn wythnosau a diwrnodau drwy'r ddogfen hon. Bydd unrhyw gyfeiriad at (er enghraifft) 24^{+0} wythnos yn golygu 24 wythnos + 0 diwrnod.
80. Dywedir bod babanod sy'n farwanedig neu'n cael eu geni o wythnos 37^{+0} y beichiogrwydd ymlaen wedi cael eu geni ar ôl cyrraedd y '**tymor**' neu'r '**tymor llawn**'. Dywedir eu bod yn farwanedig yn ystod y cyfnod '**ôl-dymor**' o 42^{+0} wythnos ymlaen. At ddibenion y ddogfen hon, mae 'tymor' a 'tymor llawn' yn golygu'r un peth ac mae modd eu cyfnewid.



Marw-enedigaeth cyn genedigaeth ac yn ystod genedigaeth

81. Dywedir bod babi'n farwanedig **cyn genedigaeth** pan mae'n hysbys bod y ffetws wedi marw cyn dechrau'r gofal yn ystod y cyfnod esgor. Dywedir bod babi'n farwanedig **yn ystod genedigaeth** pan mae'n hysbys bod y babi yn fyw ar ddechrau'r gofal yn ystod y cyfnod esgor.



Achosion o farw-enedigaeth a fyddai'n rhan o gwmpas ymchwiliad y crwner

82. Rydym yn credu y dylai crwner fod yn gyfrifol am ganolbwyntio ar farw-enedigaethau lle mae'r ymchwiliad yn bodloni'r holl amcanion a nodir ym Mhennod 1, sef:
- darparu asesiad annibynnol o'r ffeithiau am y farw-enedigaeth sy'n cael ei hymchwilio a'i hachosion;
 - cynnal ymchwiliadau tryloyw sy'n rhoi cyfle i rieni fynegi eu barn ar yr amgylchiadau a arweiniodd at farw-enedigaeth eu babi, yn ogystal ag ymgysylltu â nhw a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt drwy gydol y broses;

- cyfrannu at ddysgu am achosion marw-enedigaethau a'r amgylchiadau sy'n arwain atynt ledled y system, gyda'r gobaith o gyfrannu at yr ymdrechion i wella canlyniadau beichiogrwydd yn y system iechyd yn ehangach.
83. Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, a dysgu gwersi gwerthfawr o'r achosion maent yn ymchwilio iddynt, dylai crwneriaid ymchwilio i'r marw-enedigaethau mwyaf tebygol o gael eu hystyried yn rhai y gellir eu [priodoli i ofal](#). Gellir priodoli marw-enedigaeth i ofal os, yn unol â'r wybodaeth a'r dechnoleg sydd ar gael ar adeg y farw-enedigaeth, byddai modd osgoi pob marw-enedigaeth sy'n cael ei achosi gan yr un peth, neu'r rhan fwyaf ohonynt, drwy ofal iechyd o ansawdd da.²⁴ Gan gadw hynny mewn cof, rydym ni wedi ystyried yn ofalus beth fyddai manteision cael crwner i ymchwilio i farw-enedigaethau, neu gyfyngu ei ymchwiliadau i is-set benodol o farw-enedigaethau, fel y rheini sy'n digwydd yng nghyswllt babanod [tymor llawn](#) neu [ôl-dymor](#).
84. Fe wnaeth *Cyfes Marw-enedigaethau The Lancet* ganfod bod 90% o'r marw-enedigaethau mewn gwledydd incwm uchel yn digwydd yn ystod y cyfnod [cyn genedigaeth](#), a bod hyn yn aml yn gysylltiedig â ffactorau sy'n ymwneud â ffordd o fyw, fel oedran y fam, gordewdra ac ysmegu, neu'n gysylltiedig â [gofal cynenedigol](#) o safon is na'r safon ddelfrydol, gan gynnwys methu adnabod babanod sydd mewn perygl.²⁵ Yn y DU, yn 2016, roedd bron i ddwy ran o dair o farw-enedigaethau yn digwydd cyn 37ain wythnos y beichiogrwydd, gan awgrymu bod genedigaeth [cyn-tymor](#) yn risg sylweddol o ran marw-enedigaeth yn y wlad hon.²⁶ Fe wnaeth dadansoddiad mawr arall, a oedd yn cynnwys nifer o wledydd, ganfod nad yw achos y farwolaeth yn hysbys yng nghyswllt dwy ran o dair o'r [genedigaethau](#) cyn-tymor, hyd yn oed mewn gwledydd incwm uchel.²⁷ Mae'n annhebygol bod modd priodoli'r achosion hyn i ofal ac, yn ein barn ni, ni fyddai angen cynnwys crwner yn yr achosion hyn.
85. Fe wnaeth *Cyfes Marw-enedigaethau The Lancet* hefyd ganfod bod marw-enedigaethau sy'n digwydd wrth roi genedigaeth yn digwydd ar ôl cyrraedd y tymor llawn yn bennaf, ac i fabanod roedd disgwyl iddyn nhw oroesi.²⁸ Yn y DU, daeth ymchwiliad cyfrinachol a gynhaliwyd gan MBRRACE-UK yn 2015 i'r casgliad y byddai modd gwella'r gofal yn 78% o'r marw-enedigaethau [yn ystod genedigaeth tymor llawn](#) a oedd yn cael eu hastudio, ac y gallai hynny fod wedi gwneud gwahaniaeth i'r canlyniad o ran y babi.²⁹ Gallai hyn olygu un broblem yn ystod un cam o'r llwybr gofal, gyda'r holl ofal fel arall yn cael ei ystyried yn briodol, neu fwy nag un broblem yn ystod mwy nag un cam o'r llwybr gofal.
86. Yn yr un modd, mae adroddiad cynnydd y Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr ar gyfer y rhaglen Each Baby Counts 2018 yn dangos – er nad un peth yn unig sy'n achosi marw-enedigaeth yn ystod genedigaeth tymor llawn yn aml, neu'n achosi [marwolaeth newyddenedigol](#) gynnar neu niwed i'r ymennydd mewn genedigaethau tymor llawn yn y DU yn 2016 – gallai gofal gwahanol fod wedi esgor

²⁴ Ffynhonnell: Gweler cyfeirnod 16 yn [Atodiad D](#), t. 55.

²⁵ Ffynhonnell: Gweler cyfeirnod 19 yn [Atodiad D](#), t. 55.

²⁶ Ffynhonnell: Gweler cyfeirnod 6 yn [Atodiad D](#), t. 53.

²⁷ Ffynhonnell: Gweler cyfeirnod 8 yn [Atodiad D](#), t. 54.

²⁸ Ffynhonnell: Gweler cyfeirnod 11 yn [Atodiad D](#), t. 54.

²⁹ Ffynhonnell: Gweler cyfeirnod 7 yn [Atodiad D](#), t. 54.

ar ganlyniadau gwahanol yn 71% o'r 955 o achosion a ystyriwyd (niwed i'r ymennydd oedd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r rhain).³⁰

87. Felly, rydyn ni'n cynnig y dylid cyfyngu ymchwiliadau crwner i farw-enedigaethau **'tymor'** neu **'dymor llawn'**, yn ogystal â marw-enedigaethau **'ôl-dymor'**. Y categori yma o achosion sydd â'r potensial gorau i nodi achos -neu achosion - y farw-enedigaeth, p'un ai a fyddai gofal gwahanol wedi gallu arwain at ganlyniad gwahanol neu beidio, ac argymhell newidiadau i ymarfer clinigol a allai leihau'r risg o farw-enedigaethau tebyg.
88. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn nodi bod marw-enedigaethau tymor llawn ac ôl-dymor yn gyfrifol am ychydig o dan draean yr holl farw-enedigaethau yng Nghymru a Lloegr yn 2016: 936 (30%) o gyfanswm o 3,112 o farw-enedigaethau.

Pennu hyd beichiogrwydd

89. Mae pob menyw feichiog yn Lloegr yn cael cynnig sgan uwchsain, neu 'sgan dyddio beichiogrwydd', rhwng wythnos 8 a 14 y beichiogrwydd. Diben y sgan yw amcangyfrif hyd y beichiogrwydd a chadw llygad ar ddatblygiad y babi. Y ffordd fwyaf manwl o fesur hyd y beichiogrwydd yw mesur **hyd y ffetws o'r pen i'r pen-ôl**, ac mae modd gwneud hyn rhwng wythnos 7 a 13 y beichiogrwydd.³¹ Gall y dull hwn ganfod hyd y beichiogrwydd ± 5 diwrnod, gyda hyder o 95%, er y gall defnyddio uwchsain i gyfrifo hyd y beichiogrwydd fod yn wallus, o ganlyniad beidio â bod yn fanwl gywir wrth fesur, ac oherwydd nad yw pob ffetws yn tyfu ar yr un raddfa.³²
90. Rydym yn cydnabod ei bod yn bosibl cael amheuaeth neu ddadleuon ynglŷn ag a gafodd babi marwanedig ei eni cyn neu ar ôl 37⁺⁰ wythnos o feichiogrwydd. Mewn sefyllfa o'r fath, dylai crwner gynnal **ymgynghoriad cychwynnol** a rhoi blaenoriaeth i ganfod a oedd y babi'n farwanedig cyn neu ar ôl y tymor llawn. Nid yw hyn yn annhebyg i'r sefyllfa bresennol, lle mae amheuaeth bod marw-enedigaeth wedi digwydd a'i bod yn bosibl bod y babi wedi cael ei eni'n fyw cyn marw.
91. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, gall y crwner agor cwest a pheidio â chanfod bod y babi'n farwanedig tan yn nes ymlaen. Bob blwyddyn, mewn tua dwsin o gwestau yng nghyswllt marwolaethau babanod newydd-anedig yng Nghymru a Lloegr, bydd y crwner yn dod i'r casgliad bod y babi'n farwanedig mewn gwirionedd. Yn yr achosion hyn, er na all y crwner roi casgliad o ran beth achosodd y farwolaeth, dylai gyflwyno tystysgrif i'r cofrestrydd yn nodi bod ffeithiau'r farwolaeth yn hysbys. Mae hyn yn golygu nad oes angen i feddyg gyflwyno **Tystysgrif Feddygol yn Nodi Achos y Farwolaeth** (MCCD).
92. Rydym yn cynnig bod yr un system yn berthnasol lle mae unrhyw amheuaeth bod babi marwanedig wedi cael ei eni cyn neu ar ôl wythnos 37⁺⁰ y beichiogrwydd, a lle caiff cwest ei gynnal a bod y crwner yn canfod bod y babi wedi cael ei eni yn ystod y cyfnod cyn-tymor. Rydym hefyd yn cynnig, lle mae cwest yng nghyswllt babi marwanedig yn dod i'r casgliad bod yr enedigaeth wedi digwydd cyn 37⁺⁰ wythnos, na fydd y ddyletswydd i nodi'r gwersi a ddysgwyd a gwneud argymhellion yn berthnasol.

³⁰ Ffynhonnell: Gweler cyfeirnod 17 yn [Atodiad D](#), t. 55.

³¹ Ffynhonnell: Gweler cyfeirnod 18 yn [Atodiad D](#), t. 55.

³² Ffynhonnell: Gweler cyfeirnod 12 yn [Atodiad D](#), t. 54.

93. Rydym wedi ystyried a ddylid cynnal ymchwiliadau crwner i rai marw-enedigaethau, yn yr un modd â dydy marwolaethau naturiol ddim yn berthnasol i ddyletswydd bresennol y crwner. Rydym yn credu y gallai'r dull hwn fod yn amhriodol, oherwydd mae'n debygol na fyddai'n ymarferol gwahaniaethu rhwng marw-enedigaethau naturiol ac annaturiol, ac y byddai hynny'n golygu bod risg o fethu dysgu gwersi o farw-enedigaethau tymor llawn mewn rhai achosion.
94. Byddai crwneriaid yn gweithredu yn unol â'u dyletswydd i bennu'r materion a nodir ym Mhennod 2 drwy ddefnyddio pob dull priodol, yn yr un modd ag y maent eisoes yn ei wneud wrth ddod i benderfyniadau ynghylch marwolaeth. Fodd bynnag, lle does dim amheuaeth am yr hyn a achosodd farw-enedigaeth nad oedd modd ei hosgoi – a bod llawer o ddogfennau am hynny – byddai disgwyl i'r broses ymchwilio fod yn llai beichus ac yn fwy cryno nag eraill.

Cwestiynau 17 – 19

C17. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ymchwilio i farwolaethau tymor llawn yn unig, neu ydych chi'n credu y dylai'r rhwymedigaeth i ymchwilio gwmpasu pob marw-enedigaeth?

C18. Os mai 'na' oedd eich ateb i ddwy ran y cwestiwn uchod, pa grŵp o farw-enedigaethau ddylid ymchwilio iddynt yn eich barn chi?

C19. A ydych chi'n cytuno y dylai crwner ymchwilio i bob marw-enedigaeth tymor llawn (h.y. pob marw-enedigaeth sy'n cael ei chwmpasu)? Neu a ydych chi'n credu y dylid gwahaniaethu mwy o fewn y categori hwn?

Pennod 6 – Cofrestru marw-enedigaeth lle mae crwner yn rhan o'r broes

95. Mae'r bennod hon yn edrych ar y broses o gofrestru marw-enedigaeth pan mae'n cael ei chyfeirio at y crwner. Mae siart llif i'w weld ar dudalennau 30 a 31.
96. Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol bod [cofrestrwyr](#) yn rhoi gwybod i'r crwner am farwolaethau mewn rhai amgylchiadau penodol, er enghraifft, lle mae wedi methu cael tystysgrif gyflawn o achos y farwolaeth, lle mae'n ymddangos bod achos y farwolaeth yn anhysbys, neu fod ganddynt unrhyw reswm arall i gredu bod achos y farwolaeth yn annaturiol neu'n dreisgar.
97. Nid ydym yn cynnig bod dyletswydd yn cael ei ymestyn i'w gwneud yn ofynnol bod cofrestrwyr yn rhoi gwybod am farwolaethau sy'n digwydd 37⁺⁰ wythnos neu fwy i mewn i'r cyfnod beichiogrwydd. Fodd bynnag, yn yr un modd â marwolaethau, gallai unrhyw un gyfeirio marw-enedigaeth sy'n digwydd 37⁺⁰ wythnos neu fwy i mewn i gyfnod beichiogrwydd at y crwner, gan gynnwys unrhyw staff meddygol a oedd yn rhan o ofal y fam, rheolwr yr uned neu'r ymddiriedolaeth, neu rieni'r babi marwanedig.
98. Fel rhan o ymgynghoriad 2016 ynghylch diwygio'r broses cofrestru marwolaethau, fe ymgynghorodd y Llywodraeth ynghylch Rheoliadau Rhoi Gwybod am Farwolaethau drafft, a oedd yn nodi o dan ba amgylchiadau y bydd dyletswydd statudol ar ymarferwyr meddygol i roi gwybod i'r crwner am farwolaeth. Yn ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018, fe wnaethom gadarnhau ein polisi ac y byddem yn cyflwyno rheoliadau. Lle gwneir rheoliadau o'r fath, byddem yn eu diwygio i gynnwys dyletswydd i roi gwybod am farw-enedigaeth y mae dyletswydd ar y crwner i ymchwilio iddi.
99. Lle bo marw-enedigaeth wedi cael ei chyfeirio at y crwner, yn yr un modd â marwolaeth, rydym yn cynnig na ddylid ei chofrestru nes:
- a) bydd y cofrestrydd wedi cael tystysgrif neu hysbysiad gan y crwner yn nodi nad yw'n bwriadu cynnal cwest oherwydd bod y babi wedi cael ei eni cyn y tymor llawn
neu, lle mae dyletswydd y crwner i ymchwilio yn berthnasol;
 - b) bod y cwest wedi dod i ben a bod y crwner wedi casglu'r manylion angenrheidiol am yr enedigaeth er mwyn cofrestru'r farw-enedigaeth.
100. Os bydd crwner yn rhoi gwybod i gofrestrydd am ei fwriad i beidio â bwrw ymlaen â'r ymchwiliad (oherwydd ei fod wedi canfod bod y farw-enedigaeth wedi digwydd cyn wythnos 37⁺⁰ y beichiogrwydd) a does dim archwiliad meddygol arall wedi cael ei gynnal ar y babi, byddai'n rhaid i'r ymarferydd meddygol presennol gyflwyno [Tystysgrif Feddygol o Farw-enedigaeth](#) er mwyn cofrestru'r farw-enedigaeth. Fodd bynnag, ni fyddai angen Tystysgrif Feddygol o Farw-enedigaeth pe bai archwiliad meddygol wedi cael ei gynnal ar gais y crwner a bod y crwner wedi dod â'i ymchwiliad i ben yn dilyn hynny.
101. Lle mae archwiliad yn cael ei gynnal a bod dyletswydd ar y crwner i gynnal cwest, rydym yn cynnig bod y crwner yn dyfarnu Tystysgrif Cadarnhau Marw-enedigaeth, a fyddai'n cyfrif fel tystysgrif dros dro er mwyn gallu cyflawni gweithdrefnau gweinyddol cysylltiedig â'r farw-enedigaeth. Byddai hyn yn cynnwys gweithdrefnau i hawlio'r budd-daliadau a'r hawliau sy'n berthnasol i rieni i fabi marwanedig.


Cwestiwn 20


C20. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig uchod ynglŷn â sut dylid cofrestru marw-enedigaeth ar ôl i grwner gynnal ymchwiliad?

Cofrestru marw-enedigaeth lle mae crwner wedi bod yn rhan o'r broses – siart llif

Mae'r siart llif yn disgrifio'r pedair sefyllfa bosibl ar gyfer y broses o gofrestru marw-enedigaeth yn unol â'n cynigion ni. Dylid ystyried y siart hwn ochr yn ochr â pharagraffau 95 i 101. Mae ein pedair sefyllfa yn seiliedig ar y cysyniadau canlynol:

- Yn **sefyllfa 1**, does dim amheuaeth bod y babi'n farw anedig cyn wythnos 37⁺⁰ y beichiogrwydd.
- Yn **sefyllfa 2**, does dim amheuaeth bod y babi'n farwanedig yn ystod wythnos 37⁺⁰ y beichiogrwydd neu ar ôl hynny.
- Yn **sefyllfa 3**, mae marw-enedigaeth sydd wedi cael ei chofrestru gyda Thystysgrif Feddygol o Farw-enedigaeth, heb unrhyw ymgynghoriad blaenorol gan y crwner, yn cael ei chyfeirio at y crwner.
- Yn **sefyllfa 4**, mae'n aneglur p'un ai a gafodd y babi ei eni cyn neu ar ôl wythnos 37⁺⁰ y beichiogrwydd.





Pennod 7 – Asesiad o'r Effaith

102. Mae'r bennod hon yn nodi cyfres o gwestiynau penodol ynghylch effaith y cynigion a gyflwynwyd ym mhenodau 1 i 6. Caiff effaith y cynigion hyn ar grwpiau sy'n rhannu nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ei hystyried ym mhennod 8.
103. Mae ein hasesiadau o effaith bosibl y cynigion a nodir ym Mhenodau 1 i 6 wedi cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r Papur Ymgynghori hwn fel Asesiad o'r Effeithiau (AE). Mae'r AE ar gael yn: <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/coronial-investigations-of-stillbirths>.
104. Mae AE yn awgrymu bod ymgynghori ynghylch y polisi hwn yn debygol o effeithio ar y canlynol: rhieni plant marwanedig; crwneriaid, eu swyddogion a'u staff; y Prif Grwner; awdurdodau lleol; y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol (GRO) a chofrestrwyr; y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS); gwasanaethau patholeg y GIG; darparwyr gwasanaethau mamolaeth a'u staff; NHS Improvement; y Gangen Ymchwilio i Ddiogelwch Gofal Iechyd (HSIB); NHS Resolution (Lloegr) a Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru.
105. Mae'r cynigion yn debygol o arwain at gostau a/neu arbedion ychwanegol i'r sector cyhoeddus.

Cwestiynau Ychwanegol yr Asesiad o'r Effaith

106. Yn yr AE, rydym yn cydnabod bod bylchau yn yr ymchwil a'r dystiolaeth ystadegol sydd ar gael i'n helpu ni i ddeall effaith bosibl ein cynigion. Byddem yn falch o gael unrhyw wybodaeth, tystiolaeth a sylwadau ychwanegol a allai helpu i fynd i'r afael â'r bylchau hyn mewn unrhyw asesiad pellach.
107. Mae manylion y prif dybiaethau i'w gweld yn yr adran **Prif Dybiaethau** yn yr AE. Er y byddem yn gwerthfawrogi safbwyntiau a thystiolaeth bellach yng nghyswllt yr holl dybiaethau, rydym wedi amlygu'r rhai penodol y byddem yn gwerthfawrogi rhagor o ddata manwl neu adborth yn eu cylch.
108. Mae'r cwestiynau canlynol yn ymwneud â'r Asesiad o'r Effaith a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori hon, a dylid eu croesgyfeirio â'r ddogfen honno.

Cwestiynau 21 – 28 (AE)

Cyfran yr ymchwiliadau lle mae angen archwiliad post-mortem, a chost archwiliad post-mortem

Cwestiwn 21.1 (AE): Ydych chi'n cytuno â'r dybiaeth y byddai angen cynnal archwiliad post-mortem yng nghyswllt y rhan fwyaf o ymchwiliadau i farw-enedigaethau (yn yr AE, rydym wedi defnyddio amcan uchaf o 100%)? Os nad ydych, esboniwch pam, gan roi tystiolaeth ategol os oes modd.

Cwestiwn 21.2 (AE): Hefyd, rydym wedi tybio y byddai archwiliad post-mortem ar gyfer marw-enedigaeth yn costio £2,000³³. Rydym yn cydnabod bod hyn yn amrywio yn ôl ardal ac felly byddem yn gwerthfawrogi safbwyntiau ar hyn, ac yn enwedig unrhyw dystiolaeth am gost gyfartalog archwiliad post-mortem ar gyfer marw-enedigaeth yn eich ardal.

Cwest dogfennol a chwest lle mae gofyn i dystion ddod i roi tystiolaeth lafar

Cwestiwn 22 (AE): Ydych chi'n cytuno â'r dybiaeth y byddai modd cynnal cwest ar sail tystiolaeth ysgrifenedig yn unig yn achos tua 20% o farw-enedigaethau (gelwir hwn yn gwest dogfennol weithiau) ac y byddai angen tystion i roi tystiolaeth lafar mewn 80% o achosion? Os nad ydych, esboniwch pam, gan roi tystiolaeth ategol os oes modd.

Amser mae'n ei gymryd i grwner gynnal achos ynghylch marw-enedigaeth ar gyfartaledd

Cwestiwn 23 (AE): Ydych chi'n cytuno â'n tybiaeth ni bod achosion yng nghyswllt marw-enedigaeth yn gymhleth ac y byddai angen tua 4 awr o amser y crwner a thua 15 awr o amser swyddog y crwner i adolygu'r achos (ac eithrio amser sy'n cael ei dreulio yn y cwest)? Os nad ydych, esboniwch pam, gan roi tystiolaeth ategol os oes modd.

Cwestiwn 24 (AE): Ydych chi'n cytuno â'r tybiaethau canlynol?:

- (i) mae'n debygol mai uwch-grwner neu grwner ardal fyddai'n ymchwilio i achosion o farw-enedigaethau ac fe sicrhewr eu bod ar gael i wneud hyn drwy gynyddu nifer y crwneriaid cynorthwyol i ddelio â'r achosion llai cymhleth y mae'r uwch-grwner neu'r crwner ardal yn ymgymryd â nhw ar hyn o bryd;
- (ii) byddai crwneriaid cynorthwyol yn treulio cymaint o oriau â'r uwch-grwner/crwner ardal ar yr achosion hyn.

Cost cwest ar gyfartaledd

Cwestiwn 25 (AE): Byddem yn croesawu safbwyntiau ar y dybiaeth yn yr AE bod cwest dogfennol yn costio £400 ar gyfartaledd a bod cwest llawn yn costio £3,000 ar gyfartaledd (gan gynnwys costau'r crwner, costau'r swyddog ymchwilio, costau tystion a chostau adeilad y llys).

³³ Nodwch mai'r gost gyfartalog ar gyfer cynnal archwiliad post-mortem mae hyn yn ei olygu, nid 'pris' archwiliad post-mortem – h.y. y costau mae'r cyflenwr yn eu hwynebu yng nghyswllt archwiliadau post-mortem, nid y gost mae comisiynwyr archwiliadau post-mortem wedi'i thalu neu ei hadfer.

Uchafswm staff y GIG sy'n rhan o'r broses

Cwestiwn 26 (AE): Ydych chi'n cytuno â'n tybiaeth y gallai hyd at 6 o staff y GIG (ymgynghorydd meddygol, meddyg iau, 3 bydwraig/hyrs a rheolwr y GIG) ddarparu hyd at 7 awr o'u hamser mewn cysylltiad ag ymchwiliad crwner i farw-enedigaeth?

Patholeg amenedigol a phediatrig

Cwestiwn 27.1 (AE): Ydych chi'n cytuno â'n tybiaeth bod 1 patholegydd amenedigol cyfwerth ag amser llawn (FTE) yn gallu cynnal rhwng 100 a 200 post-mortem ar fabanod marwanedig mewn blwyddyn – ac felly, os bydd ymchwiliadau crwner i farw-enedigaethau yn golygu 450 yn fwy o archwiliadau post-mortem bob blwyddyn, byddai angen rhwng 2.25 a 4.5 patholegydd amenedigol cyfwerth ag amser llawn er mwyn cyflawni'r baich gwaith ychwanegol? Os nad ydych, esboniwch pam, gan roi tystiolaeth ategol os oes modd.

Cwestiwn 27.2 (AE): O'r archwiliadau post-mortem ychwanegol mae'n bosibl y bydd galw amdanynt yn eich ardal yng nghyswllt marw-enedigaethau, pa ganran ohonynt fyddai'r archwilwyr yn gallu eu cyflawni, ac yn foddol eu cyflawni?

Cwestiwn 27.3 (AE): Os nad 100% oedd eich ateb i gwestiwn 27.2, pa drefniadau ariannu gwahanol ydych chi'n meddwl y byddai eu hangen er mwyn cefnogi'r cynnydd yn y galw am archwiliadau post-mortem yng nghyswllt marw-enedigaethau tymor llawn?

Ymchwiliadau i farw-enedigaethau sy'n bodoli eisoes

Cwestiwn 28 (AE): Yn eich barn chi, pa effaith allai ymchwiliadau crwner i farw-enedigaethau ei chael ar yr ymchwiliadau i farw-enedigaethau sy'n cael eu cynnal: a) yn lleol; a b) gan y Gangen Ymchwilio i Ddiogelwch Gofal Iechyd (HSIB)? A fydd yr ymchwiliadau presennol i farw-enedigaethau yn dal i fod yn annibynnol ar ymchwiliadau'r crwner neu a fydd rhywfaint o'r gweithgarwch presennol yn cael ei ddisodli gan ymchwiliadau'r crwner i farw-enedigaethau, neu a fydd hyn yn effeithio arnynt fel arall?

Pennod 8 – Cydraddoldeb

109. Mae adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("Deddf 2010") yn ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion ac Adrannau yn rhoi 'sylw dyledus' i'r canlynol wrth gyflawni eu swyddogaethau:

- dileu achosion o wahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan Ddeddf 2010;
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau (pobl sy'n rhannu nodwedd berthnasol a warchodir a phobl nad ydynt); a
- meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau (pobl sy'n rhannu nodwedd berthnasol a warchodir a phobl nad ydynt yn rhannu nodwedd o'r fath).

110. Mae angen ystyried rhoi 'sylw dyledus' yng nghyd-destun y naw "nodwedd warchodedig" o dan Ddeddf 2010 – sef hil, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oed, priodas a phartneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth.

111. Ar hyn o bryd, rydym yn casglu tystiolaeth er mwyn paratoi asesiad o sut byddai'r cynigion a nodir yn y ddogfen ymgynghori, neu unrhyw bolisi a fyddai'n cyflwyno ymchwiliadau crwner i farw-enedigaethau yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, yn effeithio ar y grwpiau uchod.

112. Er mwyn ein helpu ni i wneud yr asesiad hwn, byddem yn croesawu safbwyntiau ynghylch a fyddai'r cynigion a nodir yn y ddogfen ymgynghori yn effeithio ar grwpiau â nodwedd warchodedig, ac os felly, sut.

Cwestiwn 29 (AE)

C29 (AE). Ydych chi'n meddwl y gallai'r cynigion ym mhenodau 1 i 6 gael mwy o effaith ar grŵp sydd â nodwedd warchodedig? Os felly, esboniwch beth fyddai'r effeithiau hyn a pha grwpiau y gallai hyn effeithio arnynt.

Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym ni amdanoch chi

Enw llawn	
Teitl swydd neu ym mha rinwedd ydych chi'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd ayb.)	
Dyddiad	
Enw'r cwmni/sefydliad (os yw'n berthnasol):	
Cyfeiriad	
Cod post	
Os hoffech i ni gydnabod ein bod wedi cael eich ymateb, ticiwch y blwch hwn	☐ (ticiwch y blwch)
Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod	

Os ydych yn cynrychioli grŵp, nodwch enw'r grŵp a rhoi crynodeb o'r bobl neu'r sefydliadau rydych yn eu cynrychioli.

Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Anfonwch ymateb erbyn 18 Mehefin 2019 drwy ddefnyddio hyb ymgynghori ar-lein y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/coronial-investigations-of-stillbirths>

Gallwch hefyd anfon eich ymateb drwy e-bost at CoronerReview@justice.gov.uk neu anfon copi caled i:

Coroners, Burial, Cremation and Inquiries Policy Team
Ministry of Justice
102 Petty France
London SW1H 9AJ

Bydd yr ymatebion yn cael eu derbyn a'u prosesu gan swyddogion yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych chi gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori, cysylltwch â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder gan ddefnyddio'r cyfeiriad uchod.

Copiâu ychwanegol

Mae rhagor o gopiâu papur o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn, ac mae hefyd ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/coronial-investigations-of-stillbirths>.

Cyhoeddi ymateb

Bydd papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi erbyn 10 Medi 2019. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/coronial-investigations-of-stillbirths>.

Grwpiau cynrychioladol

Gofynnir i grwpiau cynrychioladol roi disgrifiad cryno o'r bobl a'r mudiadau maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

Cyfrinachedd

Gall gwybodaeth a ddarperir wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â gweithdrefnau mynediad at wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, y Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data (GDPR) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych chi am i'r wybodaeth rydych chi'n ei rhoi gael ei chadw'n gyfrinachol, cofiwch fod y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn cynnwys Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae hwn, ymhlith pethau eraill, yn ymwneud ag ymrwymïadau cyfrinachedd. Gan ystyried hyn, byddai'n help i ni petaech yn esbonio

pam rydych o'r farn bod yr wybodaeth rydych wedi'i darparu yn gyfrinachol. Os cawn gais am ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn sicrhau y gallwn gadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn un sy'n cyfrwymo'r Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, a gan amlaf, bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol eu datgelu i drydydd partïon.

Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi'u nodi yn yr egwyddorion ymgynghori.

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>

Atodiad A – Rhestr o'r Ymgynghoreion

Anfonir copïau o'r ddogfen ymgynghori hon at yr ymgynghoreion canlynol. Ni fwriedir i'r rhestr hon gynnwys pawb na chau neb allan a byddwn yn croesawu ymatebion gan bawb sydd â diddordeb yn y pwnc a drafodir yn y papur hwn, neu sydd â safbwynt yn ei gylch. Mae'r ddogfen ymgynghori a'r Asesiad o'r Effaith ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/coronial-investigations-of-stillbirths>.

Abigail's Footsteps

Aching Arms

Academi Colegau Meddygol Brenhinol Cymru

Dewisiadau a Chanlyniadau Cynenedigol (ARC)

Birthrights

Y Gymdeithas Trawma Geni

Cymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain

Y Gwasanaeth Cyngor ar Feichiogrwydd Prydeinig

Yr Ymgyrch dros Enedigaethau mwy Diogel

Child Bereavement UK

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Y Comisiwn Ansawdd Gofal

Prif Grwner Cymru a Lloegr

Gwasanaeth Cefnogi Llysoedd y Crwneriaid

Cymdeithas Staff a Swyddogion Crwneriaid

Rheolwyr y Gwasanaeth Crwneriaid

Gofal Galar Cruse

Y Cyngor Meddygol Cyffredinol

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

INQUEST

Cymdeithas y Gyfraith

Cymdeithas y Gwasanaethau Cofrestru Lleol

Yr Arglwydd Brif Ustus

MBRRACE-UK

Y Gymdeithas Camesgoriad

Multiple Births Foundation

Y Gynghrair Galar Genedlaethol

Ymddiriedolaeth Genedlaethol Geni Plant

Y Mudiad Cymorth Mamolaeth Cenedlaethol

Y Panel Cofrestru Cenedlaethol

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Elusen Petals

Coleg Brenhinol y Bydwragedd

Y Coleg Nyrsio Brenhinol

Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr

Coleg Brenhinol y Patholegwyr

Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant

SANDS (Cymdeithas Marw-enedigaethau a Marwolaethau Newyddanedigion)

Saying Goodbye

Uwch Grwneriaid, Crwneriaid Ardal a Chrwneriaid Cynorthwyol

Cymdeithas Crwneriaid Cymru a Lloegr

TAMBA (Cymdeithas Gefeilliaid a Genedigaethau Lluosog)

Tommy's

Winston's Wish

Atodiad B – Dolenni defnyddiol

Y Comisiwn Ansawdd Gofal:

<https://www.cqc.org.uk/>

Canllawiau a chynghor cyffredinol y Prif Grwner:

<https://www.judiciary.uk/related-offices-and-bodies/office-chief-coroner/guidance-law-sheets/>

Diwygio'r broses cofrestru marwolaethau:

<https://www.gov.uk/government/consultations/death-certification-reforms>

Each Baby Counts:

<https://www.rcog.org.uk/eachbabycounts>

Canllaw i wasanaethau crwneriaid ac Ymchwiliadau crwneriaid – canllaw cryno:

<https://www.gov.uk/government/publications/guide-to-coroner-services-and-coroner-investigations-a-short-guide>

Ymchwiliadau mamolaeth y Gangen Ymchwilio i Ddiogelwch Gofal Iechyd:

<https://www.hsib.org.uk/maternity/>

Archwilwyr meddygol:

<https://www.rcpath.org/profession/medical-examiners.html>

Yr Adnodd Adolygu Marwolaeth Amenedigol:

<https://www.npeu.ox.ac.uk/pmrt>

Gweithio i Wella:

<http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-home.cfm?orgid=932>

Gofal Beichiogrwydd Mwy Diogel – Cynnydd a'r Camau Nesaf:

<https://www.gov.uk/government/publications/safer-maternity-care-progress-and-next-steps>

Y Fframwaith Achosion Difrifol:

<https://improvement.nhs.uk/resources/serious-incident-framework/>

Atodiad C – Geirfa

Priodoli i ofal	Caiff marw-enedigaeth ei phriodoli i ofal os, yn unol â'r wybodaeth a'r dechnoleg feddygol sydd ar gael ar adeg y farw-enedigaeth, byddai modd osgoi pob marw-enedigaeth sydd wedi'i achosi gan yr un peth, neu'r rhan fwyaf ohonynt, drwy ofal iechyd o ansawdd da.
Gofal cynenedigol	Gofal cynenedigol yw'r gofal mae gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd yn ei roi i fenywod beichiog er mwyn sicrhau'r amodau iechyd gorau posibl i'r fam a'r babi yn ystod beichiogrwydd.
Cyn genedigaeth	Dywedir bod babi'n farwanedig cyn genedigaeth pan mae'n cael ei eni 24 wythnos + 0 diwrnod (24 ⁺⁰ wythnos) i mewn i'r cyfnod beichiogrwydd a phan mae'n hysbys bod y ffetws wedi marw (gweler y diffiniad isod) cyn dechrau'r gofal yn ystod y cyfnod esgor.
Meddyg sy'n trin yr achos	Yn gyffredinol, ystyr meddyg sy'n trin yr achos, at ddibenion llenwi Tystysgrif Feddygol yn Nodi Achos y Farwolaeth (gweler y diffiniad isod), yw meddyg sydd wedi gofalu am y claf yn ystod y salwch a arweiniodd at y farwolaeth, ac sydd felly'n gyfarwydd ag ymchwiliadau, triniaethau a hanes meddygol diweddar y claf. Mae rhagor o ganllawiau ynghylch llenwi'r Dystysgrif Feddygol sy'n Nodi Achos y Farwolaeth yng Nghymru a Lloegr ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/guidance-notes-for-completing-a-medical-certificate-of-cause-of-death
Babi	Mae'r gair ' babi ', at ddibenion y ddogfen hon, yn cael ei ddefnyddio i gwmpasu cyfeiriadau at berson newydd-anedig, yn ogystal â ffetws heb ei eni yn ystod unrhyw gam o'r beichiogrwydd, neu ffetws sydd wedi cael ei eni heb unrhyw arwydd ei fod yn fyw yn ystod unrhyw gam o'r beichiogrwydd. Nid yw o reidrwydd yn awgrymu hyfywedd, arwyddion o fywyd nac unrhyw ystyr arall a allai wahaniaethu rhwng genedigaeth fyw a marw-enedigaeth.
Y Comisiwn Ansawdd Gofal	Y Comisiwn Ansawdd Gofal yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn Lloegr. Fe gafodd ei sefydlu gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008. Un o'i brif swyddogaethau yw adolygu sut mae darparwyr gofal yn gweithredu ac asesu eu perfformiad.
Prif Grwner	Y Prif Grwner yw pennaeth y system crwneriaid ac mae'n gyfrifol am arwain crwneriaid yn genedlaethol ledled Cymru a Lloegr. Mae prif gyfrifoldebau'r Prif Grwner yn cynnwys arwain crwneriaid a rhoi cyngor a chymorth iddynt, yn ogystal â phennu safonau cenedlaethol. Mae rhagor o wybodaeth am y Prif Grwner ar gael yn: www.judiciary.uk/related-offices-and-bodies/office-chief-coroner/

Difa plentyn

Difa plentyn yw'r drosedd o achosi i blentyn farw yn fwriadus cyn iddo fodoli yn annibynnol ar ei fam, gyda'r bwriad o roi diwedd ar ei fywyd (gweler adran 1 o Ddeddf (Gwarchod) Bywydau Babanod 1929).

Comisiynydd gofal

Ystyr **comisiynydd gofal**, yng nghyd-destun y **Fframwaith Achosion Difrifol** (gweler y diffiniad isod), yw sefydliad sy'n gyfrifol am asesu anghenion, cynllunio a blaenoriaethu gwaith, a phrynu a monitro gwasanaethau iechyd, er mwyn cael y canlyniadau gorau o ran iechyd. Yn Lloegr, caiff gwasanaethau mamolaeth eu comisiynu gan Grwpiau Comisiynu Clinigol (grwpiau i ymarferwyr cyffredinol sy'n dod at ei gilydd ym mhob maes i brynu'r gwasanaethau gorau ar gyfer eu cleifion a'r boblogaeth).

Casgliad

Casgliad yw'r penderfyniad mae'r crwner (neu'r rheithgor) yn dod iddo ar ddiwedd cwest. Caiff y casgliad ei gofnodi ar ffurflen 'cofnod cwest' sy'n cynnwys y **penderyniad** cyfreithiol a'r **canfyddiadau** (gweler y diffiniadau isod).

Gall gynnwys un o'r '**canlyniadau byr**' canlynol: damwain neu anffawd; achos cysylltiedig ag alcohol/cyffuriau; salwch diwydiannol; lladd cyfreithlon/anghyfreithlon; achosion naturiol; agored; gwrthdrawiad traffig ar y ffordd; marw-enedigaeth; neu hunanladdiad. Gellir dod i '**gasgliad agored**' os nad oes digon o dystiolaeth i alluogi'r crwner neu'r rheithgor i ddod i un o'r casgliadau eraill. Weithiau bydd y crwner neu'r rheithgor yn cofnodi '**casgliad naratif**' manylach am y farwolaeth.

Mae rhagor o wybodaeth am wasanaethau crwneriaid ar gael yn: www.gov.uk/government/publications/guide-to-coroner-services-and-coroner-investigations-a-short-guide

Crwner

Swydd-ddeiliad barnwrol annibynnol yw **crwner**, sydd wedi'i benodi gan awdurdod lleol (cyngor) yn ardal y crwner. Mae rhai crwneriaid yn gyfrifol am ardal sy'n cwmpasu mwy nag un awdurdod lleol. Cyfreithwyr yw crwneriaid fel arfer, ond maent yn feddygon weithiau. Mae crwneriaid yn gweithio yn unol â fframwaith cyfreithiol sydd wedi'i basio gan y Senedd.

Mae rhagor o wybodaeth am wasanaethau crwneriaid ar gael yn: www.gov.uk/government/publications/guide-to-coroner-services-and-coroner-investigations-a-short-guide

Gwasanaeth Cefnogi Llysoedd y Crwneriaid

Elusen yw **Gwasanaeth Cefnogi Llysoedd y Crwneriaid** (CCSS), sydd, yn ardaloedd rhai crwneriaid, yn rhoi cymorth ymarferol ac emosiynol i deuluoedd sydd wedi colli plentyn, ar ddiwrnod y cwest. Mae gwirfoddolwyr hyfforddedig y Gwasanaeth Cefnogi hefyd yn gallu siarad â'r teulu cyn y cwest am yr hyn sydd ar fin digwydd.

Hyd o'r pen i'r pen-ôl

Mae mesur **hyd y ffetws o'r pen i'r pen-ôl** (crown-rump length) yn ddull o fesur ffetws a ddefnyddir i bennu **hyd beichiogrwydd** (gweler y diffiniad isod). Mae'n golygu mesur hyd y ffetws o'i ben i waelod ei ben-ôl.

Marwolaeth mewn cystodaeth

Mae **marwolaeth mewn cystodaeth** yn digwydd pan fo'r sawl sydd wedi marw wedi'i gaethiwo fel carcharor neu oherwydd ei fod wedi cael ei arestio gan swyddog heddlu (edrychwch isod i weld y diffiniad ar gyfer [caethiwed y wladwriaeth](#)).

Rhoi genedigaeth

Mae **rhoi genedigaeth** i fabi, at ddibenion y ddogfen hon, yn cyfeirio at fabi yn cael ei allwthio neu ei dynnu allan o'i fam yn llwyr, beth bynnag fo hyd y beichiogrwydd, hyfywedd y babi, a oes arwyddion o fywyd, neu a yw'n farw-enedigaeth neu'n enedigaeth fyw.

Penderfyniadau

Mae **penderyniadau** r crwner (neu'r rheithgor) yn cyfeirio at adnabod y sawl sydd wedi marw a sut, pryd a ble y bu farw (yn unol â'r hyn sy'n ofynnol o dan adrannau 5 a 10 Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009).

Each Baby Counts

Mae **Each Baby Counts** yn rhaglen gwella ansawdd genedlaethol sy'n cael ei harwain gan Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr. Ei bwriad yw lleihau nifer y babanod sy'n marw neu sydd ag anableddau difrifol yn sgil digwyddiadau yn ystod esgoriad tymor llawn.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:
<https://www.rcog.org.uk/eachbabycounts>

Ffetws wedi marw

Os yw'r **ffetws wedi marw**, mae'n golygu bod y babi wedi marw cyn iddo gael ei allwthio neu ei dynnu allan o'i fam yn llwyr, beth bynnag fo hyd y beichiogrwydd a lle nad yw'r beichiogrwydd wedi cael ei derfynu'n fwriadol.

Canfyddiadau

Canfyddiadau r crwner yw'r manylion mae'r crwner yn eu sefydlu ynghylch marwolaeth er mwyn gallu cofrestru'r farwolaeth (o dan Ddeddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953).

Hyd beichiogrwydd

Mae **hyd beichiogrwydd** yn mesur pa mor hir yw cyfnod y beichiogrwydd, ac mae'n cael ei gyfrifo o ddiwrnod cyntaf misliff diwethaf menyw, neu ar sail hyd beichiogrwydd sydd wedi cael ei amcangyfrif gan ddefnyddio dull mwy manwl gywir os oes un ar gael. Mae dulliau o'r fath yn cynnwys ychwanegu 14 diwrnod at yr amser sydd wedi bod ers y ffrwythloniad os yw'n hysbys (mae hynny'n bosibl gyda ffrwythloni in vitro) neu drwy uwchsonograffi obstetrig.

Y Gangen Ymchwilio i Ddiogelwch Gofal Iechyd (HSIB)

Mae'r **Gangen Ymchwilio i Ddiogelwch Gofal Iechyd** yn dîm o ymchwilydd diogelwch profiadol sy'n cael eu harwain gan y prif ymchwilydd, Keith Conradi. Er bod y Gangen yn cael ei hariannu gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'i chynnal gan NHS Improvement, mae'n gweithredu'n annibynnol ar y cyrff hyn a sefydliadau fel y Comisiwn Ansawdd Gofal a sefydliadau'r GIG. Mae'n ymchwilio i achosion diogelwch er mwyn rhoi argymhellion ystyrlon ynghylch diogelwch a rhannu gwersi ledled y system gofal iechyd – er budd pawb mae'r system yn gofalu amdanynt a phawb sy'n gweithio ynddi.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: <https://www.hsib.org.uk>

Cwest

Ymgynghoriad cyhoeddus yw **cwest** sy'n cael ei gynnal gan grwner i ganfod ffeithiau a sefydlu pwy sydd wedi marw a sut, pryd a ble y digwyddodd y farwolaeth. Mae'n rhan o ymchwiliad y crwner. Nid yw cwest yn sefydlu unrhyw fater o ran atebolrwydd sifil neu droseddol. Nid yw'n ceisio rhoi bai ar rywun na rhannu'r bai rhwng pobl neu sefydliadau.

Mewn rhai achosion, lle nad yw'r teulu yn dymuno dod i'r cwest ac nad oes angen iddyn nhw wneud hynny, a lle ceir ychydig iawn o dystiolaeth lafar neu ddim o gwbl, gall y crwner benderfynu cynnal **cwest dogfennol**. Caiff cwest dogfennol ei gynnal yn gyhoeddus ond, yn wahanol i bob cwest arall, mae'n cael gwrandawriad heb dystion. Yn gyffredinol, gall cwest fel yma godi mewn achosion y gellir eu cwblhau mewn un gwrandawriad (gelwir hwn yn 'gwest llwybr carlam' hefyd) ac mewn achosion lle mae cwest wedi cael ei ohirio ac, ar ôl cael y dystiolaeth a'i hystyried (e.e. tystiolaeth o ymchwiliad heb ei gyfeirio at grwner), mae'r crwner yn penderfynu y byddai cwest dogfennol yn addas.

Person â buddiant

Ystyr **person â buddiant** yw person sydd â hawliau penodol o dan Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009. Diffinnir 'person â buddiant' yn adran 47(2) o Ddeddf 2009 fel a ganlyn:

- gŵr/gwraig, partner sifil, partner, rhiant, plentyn, brawd, chwaer, nain/taid, ŵyr/wyres, plentyn brawd neu chwaer, llystad, llysfam, hanner brawd, hanner chwaer;
- cynrychiolydd personol yr ymadawedig;
- archwilydd meddygol sy'n cynnal swyddogaethau mewn perthynas â marwolaeth yr ymadawedig;
- unrhyw un sy'n elwa o bolisi yswiriant bywyd ar yr ymadawedig;
- yswiriwr a gyflwynodd bolisi yswiriant bywyd ar gyfer yr ymadawedig;
- person, drwy weithred neu anweithred, a allai fod wedi achosi neu gyfrannu at y farwolaeth, neu rywun y gallai ei weithiwr neu ei asiant fod wedi gwneud hynny;
- cynrychiolydd undeb llafur yr oedd yr ymadawedig yn aelod ohono adeg ei farwolaeth (os gallai'r farwolaeth fod wedi'i hachosi gan anaf a gafwyd yn ystod cyflogaeth yr unigolyn, neu y bu farw o glefyd diwydiannol);
- person sydd wedi cael ei benodi gan awdurdod gorfodi, neu'n gynrychiolydd ohono;
- y prif gwnstabl (lle mae'n bosibl bod trosedd o laddiad wedi bod);
- Profost Milwrol (lle mae'n bosibl bod trosedd o laddiad yn y gwasanaethau milwrol wedi bod);
- Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (lle mae'r farwolaeth yn amodol ar ymchwiliad gan Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu);
- person wedi'i benodi gan adran o'r Llywodraeth i fynd i'r cwest neu i gynorthwyo ag ef, neu i ddarparu tystiolaeth yn yr ymchwiliad; neu
- unrhyw unigolyn arall sydd â buddiant digonol ym marn y crwner.

Yn ystod genedigaeth

Dywedir bod babi'n farwanedig **yn ystod genedigaeth** pan mae'n cael ei eni 24 wythnos + 0 diwrnod (24^{+0} wythnos) neu fwy i mewn i'r cyfnod beichiogrwydd ac nad yw'n dangos unrhyw arwydd o fywyd a'i bod yn hysbys ei fod yn fyw ar ddechrau'r gofal yn ystod y cyfnod esgor.

Mae **marw-enedigaeth tymor llawn yn ystod genedigaeth** yn cyfeirio at farw-enedigaeth babi sy'n cael ei eni rhwng 37 wythnos + 0 diwrnod (37^{+0} wythnos) a 41 wythnos + 6 diwrnod (41^{+6} wythnos) o feichiogrwydd ac nad yw'n dangos unrhyw arwydd o fywyd, a'i bod yn hysbys nad oedd yn fyw ar ddechrau'r gofal yn ystod y cyfnod esgor.

MBRRACE-UK

MBRRACE-UK (Mamau a Babanod: Lleihau Risg drwy Archwiliadau ac Ymchwiliadau Cyfrinachol ledled y DU) yw enw'r rhaglen o waith cydweithredol sy'n cael ei harwain gan yr Uned Epidemioleg Amenedigol Genedlaethol (NPEU) ac yn cynnal y Rhaglen Adolygu Canlyniadau Clinigol ar gyfer Mamau, Babanod Newydd-anedig a Babanod. Cafodd ei chomisiynu gan y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP) fel rhan o'r Rhaglen Canlyniadau Cleifion a'r Arolwg Clinigol Cenedlaethol (NCAPOP). Mae'r Rhaglenni Adolygu Canlyniadau Clinigol, sy'n cynnwys ymchwiliadau cyfrinachol, wedi'u llunio er mwyn helpu i asesu ansawdd gofal iechyd ac ysgogi gwelliannau o ran diogelwch ac effeithiolrwydd drwy alluogi clinigwyr, rheolwyr a llunwyr polisïau i ddysgu o ddigwyddiadau niweidiol a data perthnasol eraill mewn modd systematig. Caiff y Rhaglen Adolygu Canlyniadau Clinigol ar gyfer Mamau, Babanod Newydd-anedig a Babanod ei hariannu gan NHS England, GIG Cymru, adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth yr Alban, Adran Iechyd Gogledd Iwerddon, Gwladwriaethau Jersey, Guernsey ac Ynys Manaw.

Tystysgrif Feddygol yn Nodi Achos y Farwolaeth

Ffurflen sy'n cael ei llofnodi gan y meddyg a oedd yn gofalu am y sawl fu farw yn ystod ei salwch diwethaf yw **Tystysgrif Feddygol yn Nodi Achos y Farwolaeth** (MCCD) ac mae'n nodi achos(ion) y farwolaeth. Mae'n galluogi teulu'r ymadawedig i gofrestru'r farwolaeth a gwneud trefniadau i waredu'r corff.

Mae ffurflen statudol gyfwerth ar gael ar gyfer marw-enedigaethau, sef y **Dystysgrif Feddygol ar gyfer Marw-enedigaeth**, sy'n cael ei defnyddio yn yr un modd i gofrestru marwolaeth babi marwanedig.

Archwiliad meddygol

Ystyr **archwiliad meddygol** yng nghyd-destun y ddogfen hon yw archwiliad meddygol manwl o'r babi marwanedig a/neu'r brych, sy'n cael ei gynnal ar ôl yr enedigaeth. Diben yr archwiliad meddygol hwn yw sefydlu'r rhesymau pam ganwyd y babi'n farwanedig.

Archwilwyr meddygol

O fis Ebrill 2019 ymlaen, bydd system anstatudol ar gyfer **archwilwyr meddygol** yn cael ei chyflwyno yn y GIG er mwyn ymgysylltu â'r teulu agosaf/hysbysydd a chyfrannu at wella diogelwch cleifion. Mae archwilydd meddygol yn feddyg hyfforddedig (uwch fel arfer) a fydd yn dilysu gwybodaeth glinigol ar **Dystysgrifau Meddygol yn Nodi Achos y Farwolaeth** (MCCD) (gweler y diffiniad uchod) ac yn sicrhau bod yr achosion iawn yn cael eu cyfeirio at y crwner i er mwyn ymchwilio iddynt ymhellach. Bydd archwilwyr meddygol yn defnyddio dull cyson wrth graffu ar gynnwys Tystysgrifau Meddygol sy'n Nodi Achos y Farwolaeth, ac mae'n rhaid iddo fod yn fanwl gywir yn glinigol. Pan fydd archwilwyr meddygol yn craffu ar farwolaethau, mae'n ofynnol nad oeddent yn rhan o ofal y cleifion sydd wedi marw.

**Y Bwrdd
Ansawdd
Cenedlaethol**

Mae'r **Bwrdd Ansawdd Cenedlaethol** (NQB) yn Lloegr yn fforwm lle mae prif sefydliadau goruchwyllo'r GIG yn dod at ei gilydd ar lefel ranbarthol a chenedlaethol i rannu deallusrwydd, cytuno ar gamau gweithredu a monitro sicrwydd ansawdd yn gyffredinol. Mae aelodau'r bwrdd yn cynnwys arweinwyr clinigol o NHS England, y Comisiwn Ansawdd Gofal, NHS Improvement, Addysg Iechyd Lloegr, Iechyd Cyhoeddus Lloegr, NICE, NHS Digital a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

**System
Genedlaethol ar
gyfer Adrodd a
Dysgu**

Mae'r **System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu** (NRLS) yn gronfa ddata ganolog o adroddiadau ar ddigwyddiadau yng nghyswllt diogelwch cleifion. Mae'r holl wybodaeth sydd wedi'i chyflwyno yn cael ei dadansoddi i adnabod peryglon, risgiau a chyfleoedd er mwyn gwella diogelwch yng nghyswllt gofal cleifion yn barhaus.

**Marwolaeth
newyddenedigol**

Mae **marwolaeth newyddenedigol** yn cyfeirio at farwolaeth babi sydd wedi cael ei eni'n fyw yn ystod 28 diwrnod cyntaf ei fywyd, beth bynnag fo hyd y beichiogrwydd pan gafodd ei eni.

**Timau
Rhanbarthol
NHS England**

Mae **Timau Rhanbarthol NHS England** yn comisiynu a darparu gofal iechyd yn eu hardaloedd ac yn darparu arweinyddiaeth broffesiynol yng nghyswllt cyllid, nyrsio, meddygaeth, comisiynu arbenigol, cleifion a gwybodaeth, adnoddau dynol, datblygu'r sefydliad, sicrwydd a chyflawniad. Mae timau rhanbarthol yn gweithio'n agos gyda sefydliadau fel grwpiau comisiynu clinigol (sef grwpiau o feddygfeydd sy'n dod at ei gilydd ym mhob ardal i brynu'r gwasanaethau gorau ar gyfer eu cleifion a'u poblogaeth), awdurdodau lleol, byrddau iechyd a lles a meddygfeydd teulu. Mae pum tîm rhanbarthol yn Lloegr.

**Byrddau Iechyd
Lleol GIG Cymru**

Mae **Byrddau Iechyd Lleol GIG Cymru** yn sicrhau a darparu gwasanaethau iechyd yn eu hardaloedd. Mae saith Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru.

**Digwyddiad
cysylltiedig â
diogelwch
cleifion**

Ystyr **digwyddiad cysylltiedig â diogelwch cleifion** yw digwyddiad anfwriadol neu annisgwyl a arweiniodd at, neu a allai fod wedi arwain at, niweidio un neu fwy o gleifion a oedd yn derbyn gofal iechyd.

**Yr Adnodd
Adolygu
Marwolaeth
Amenedigol**

Mae'r **Adnodd Adolygu Marwolaeth Amenedigol** yn rhaglen a lansiwyd yn 2018 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod Ymddiriedolaethau yn cynnal adolygiadau systematig ac amlddisgyblaethol o ansawdd da sy'n ymdrin â'r amgylchiadau a'r gofal a arweiniodd at bob marw-enedigaeth a marwolaeth newyddenedigol, yn ogystal â marwolaethau babanod sy'n marw ar ôl y cyfnod newyddenedigol ac ar ôl cael gofal newyddenedigol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:
<https://www.npeu.ox.ac.uk/pmrt>

Archwiliad post-mortem

Ystyr **archwiliad post-mortem** yw archwiliad meddygol o gorff sy'n cael ei gynnal ar ôl marwolaeth. Diben yr archwiliad post-mortem yw sefydlu achos meddygol y farwolaeth. Mae archwiliad post-mortem gan grwner yn annibynnol ac yn cael ei gynnal gan ymarferydd meddygol addas y mae'r crwner yn ei ddewis.

Gall archwiliad post-mortem gynnwys cynnal profion gwaed a samplau eraill, sgan o'r corff, er enghraifft sgan CT (tomograffeg gyfrifiadurol) neu MRI (delweddu cyseiniant magnetig) a/neu lawdriniaeth i dynnu organau a'u harchwilio. Bydd y crwner yn penderfynu pa fath o archwiliad post-mortem sy'n briodol.

Ymholiadau cychwynnol

Ystyr **ymholiadau cychwynnol** yw ymholiadau mae'r crwner yn eu gwneud ar ôl i farwolaeth gael ei chyfeirio ato, er mwyn penderfynu a yw ei ddyletswydd i ymchwilio yn berthnasol.

Gweithio i Wella

Gweithio i Wella yw'r enw a roddir ar set o brosesau'r GIG ar gyfer codi pryderon cleifion, ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt.

Mae rhagor o wybodaeth am y rhaglen Gweithio i Wella ar gael yn: <http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-home.cfm?orgid=932>

Hysbysydd cymwys

Ystyr **hysbysydd cymwys** yw unigolyn sy'n gymwys o dan Ddeddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953 i roi gwybodaeth i'r **cofrestrydd** (gweler y diffiniad isod) at ddibenion cofrestru. Mewn perthynas â marw-enedigaeth, gall hysbysydd cymwys olygu:

- tad a mam y babi marwanedig;
- unrhyw un a oedd yn bresennol yn ystod y farw-enedigaeth;
- lle y bo hynny'n briodol, preswlydd yn y tŷ y cafodd y babi ei eni'n farwanedig ynddo;
- y sawl a ddaeth o hyd i'r babi mewn achos lle cafodd babi ei ganfod

Adroddiad i Atal Marwolaeth yn y Dyfodol

Adroddiad sy'n cael ei wneud gan grwner o dan yr amgylchiadau canlynol yw **Adroddiad i Atal Marwolaethau yn y Dyfodol**:

- a) pan fydd rhywbeth sy'n cael ei ddatgelu fel rhan o'r ymchwiliad yn codi pryderon y bydd amgylchiadau a fydd yn peri risg o farwolaethau eraill yn codi, neu'n parhau i fodoli, yn y dyfodol
- b) mae'r crwner yn credu y dylid cymryd camau gweithredu i atal amgylchiadau o'r fath rhag parhau neu ddigwydd yn y lle cyntaf, neu y dylid dileu neu leihau'r risg o farwolaeth sydd wedi deillio o'r amgylchiadau hyn.

Caiff yr adroddiad hwn ei gyflwyno gan y crwner i unrhyw un a allai gymryd camau gweithredu o'r fath. Dylai unrhyw un sy'n derbyn Adroddiad i Atal Marwolaethau yn y Dyfodol roi ymateb ysgrifenedig i'r uwch grwner a gyflwynodd yr adroddiad.

Cofrestrydd

Swyddog sy'n cael ei gyflogi gan yr awdurdod lleol yw **cofrestrydd**, ac mae'n gyfrifol am gofrestru genedigaethau a marwolaethau yn ei ardal.

Y Fframwaith Achosion Difrifol

Fframwaith a luniwyd gan NHS Improvement ac sy'n cael ei rheoli ganddo yw'r **Fframwaith Achosion Difrifol** ac mae'n disgrifio'r broses a'r gweithdrefnau ar gyfer helpu i sicrhau bod Achosion Difrifol yn y GIG yn cael eu cofnodi'n gywir, yr ymchwilir iddynt yn drylwyr a bod pobl yn dysgu ohonynt er mwyn atal achosion tebyg rhag digwydd eto.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn

<https://improvement.nhs.uk/resources/serious-incident-framework>.

Achosion difrifol

Ystyr **achosion difrifol** ym maes gofal iechyd yw digwyddiadau niweidiol lle mae'r canlyniadau i gleifion, teuluoedd, gofawyr, staff neu sefydliadau mor sylweddol, neu mae'r potensial ar gyfer dysgu mor fawr, bod modd cyfiawnhau ymateb ar lefel uwch. Mae achosion difrifol yn cynnwys gweithredoedd neu anweithredoedd o ran gofal sy'n arwain at y canlynol:

- marwolaeth annisgwyl neu y mae modd ei hosgoi;
- anaf annisgwyl neu y mae modd ei osgoi sy'n arwain at niwed difrifol – gan gynnwys achosion lle roedd angen trin yr anaf er mwyn osgoi marwolaeth neu niwed difrifol;
- cam-drin;
- digwyddiadau y mae modd eu hosgoi (never events);
- digwyddiadau sy'n atal (neu'n bygwth atal) gallu sefydliad i barhau i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd o ansawdd derbyniol;
- digwyddiadau sy'n achosi pryder cyhoeddus ac yn arwain at golli hyder yn y gwasanaethau gofal iechyd.

Arwyddion o fywyd

Diffiniad **arwyddion o fywyd** yn ôl Sefydliad Iechyd y Byd, yw tystiolaeth o fywyd ar ôl allwthio neu dynnu'r babi allan o'i fam, beth bynnag fo hyd y beichiogrwydd – fel curiad y galon, y llinyn bogail yn curo, neu unrhyw symudiad pendant mewn cyhyrau rheoledig, p'un ai a yw'r llinyn bogail wedi cael ei dorri neu fod y brych wedi'i gysylltu.

Caethiwed y wladwriaeth

Ystyrir bod person yng **nghaethiwed y wladwriaeth** os yw'n cael ei gadw yn nalfa awdurdod cyhoeddus yn unol ag ystyr adran 6 Deddf Hawliau Dynol 1998. Mae hyn yn cynnwys pobl sydd wedi'u cadw'n gaeth mewn ysbyty o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, yn ogystal â phobl sydd wedi'u cadw'n gaeth mewn Canolfannau Cadw Mewnfydwyr. At ddibenion cyfraith y crwneriaid, ni ystyrir bod person sydd wedi cael ei amddifadu o ryddid o dan bwerau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yng nghaethiwed y wladwriaeth.

**Genedigaeth/Marw-enedigaeth
Tymor,
Tymor Llawn,
Ôl-dymor**

Genedigaeth/Marw-enedigaeth tymor, tymor llawn, ôl-dymor – Ystyrir bod genedigaeth neu farw-enedigaeth wedi digwydd ar ôl cyrraedd y **tymor tymor llawn** (neu fod y beichiogrwydd wedi cyrraedd yr adegau hynny), sef rhwng 37 wythnos + 0 diwrnod a 41 wythnos + 6 diwrnod. Mae **cyn-tymor** yn cyfeirio at enedigaeth cyn 37 wythnos + 0 diwrnod o feichiogrwydd, ac mae **ôl-dymor** yn cyfeirio 42^{ain} wythnos y beichiogrwydd neu ar ôl hynny. At ddibenion y ddogfen hon, mae ‘tymor’ a ‘tymor llawn’ yn golygu’r un peth ac mae modd eu cyfnewid.

Atodiad D – Cyfeirnodau

Tablau ystadegol

1. Y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (2018), Blwyddlyfr Ystadegau Crwneriaid 2017, Cymru a Lloegr. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/705766/coroners-statistics-annual-2017-tables.ods
2. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2019), Nodweddion Geni, Cymru a Lloegr, tabl 10. Ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk/file?uri=/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/livebirths/datasets/birthcharacteristicsinenglandandwales/2017/birthcharacteristicsworkbook2017.xls>
Sylwer: Mae'r 2830 o farw-enedigaethau yng Nghymru, Lloegr a thu hwnt a nodir yn nhabl 10 ychydig yn is na'r ffigur yn nhabl 3 (2873) oherwydd y mae wedi cael ei gyfrifo ar sail wahanol. Mae 'tu hwnt' yn cyfeirio at farw-enedigaethau a ddigwyddodd yng Nghymru a Lloegr ond i fenywod sydd fel arfer yn byw y tu allan i Gymru a Lloegr
3. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2018), Ystadegau marwolaeth plant, 2016. Ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk/file?uri=/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/datasets/childmortalitystatisticschildhoodinfantandperinatalchildhoodinfantandperinatalmortalityinenglandandwales/2016/cms2016corrected.xls>

Adroddiadau ac erthyglau

4. Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2017), *Gofal Beichiogrwydd Mwy Diogel: Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Beichiogrwydd Diogel - Cynnydd a'r Camau Nesaf*. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/662969/Safer_maternity_care_-_progress_and_next_steps.pdf
5. Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2018), *Ymateb y Llywodraeth i Adroddiad y Cydbwyllgor ar Ddrafft y Bil Ymchwilio i Ddiogelwch Gwasanaethau Iechyd*. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/761146/Gov_response_to_the_Report_of_the_JC_HSS_I_Bill.pdf
6. Draper ES, Gallimore ID, Kurinczuk JJ, Smith PW, Bobby T, Smith LK, Manktelow BN, ar ran Cydweithrediaeth MBRRACE-UK. MBRRACE-UK Adroddiad Arsylwi Marwolaeth Amenedigol, Marwolaethau Amenedigol yn y DU ar gyfer Genedigaethau rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2016. Caerlŷr: Astudiaethau Morbidrwydd a Marwolaeth Babanod, Yr Adran Gwyddorau Iechyd, Prifysgol Caerlŷr. 2018. Ar gael yn: <https://www.npeu.ox.ac.uk/downloads/files/mbrrace-uk/reports/MBRRACE-UK%20Perinatal%20Surveillance%20Full%20Report%20for%202016%20-%20June%202018.pdf>

7. Draper ES, Kurinczuk JJ, Kenyon S (Gol.) ar ran MBRRACE-UK. MBRRACE-UK 2017 Ymchwiliad Amenedigol Cyfrinachol: Marw-enedigaethau tymor llawn, un plentyn ac yn ystod genedigaeth, a marwolaethau newyddenedigol cysylltiedig â genedigaeth. Astudiaethau Morbidrwydd a Marwolaeth Babanod, Yr Adran Gwyddorau Iechyd, Prifysgol Caerlŷr: Caerlŷr, 2017. Ar gael yn: <https://www.npeu.ox.ac.uk/downloads/files/mbrance-uk/reports/MBRRACE-UK%20Intrapartum%20Confidential%20Enquiry%20Report%202017%20-%20final%20version.pdf>
8. Ferrero DM, Larson J, Jacobsson B, Di Renzo GC, Norman JE, Martin JN Jr, et al. (2016) Dadansoddiad Traws Gwlad o Gyfranogwyr Unigol yng nghyswllt 4.1 Miliwn o Enedigaethau Un Plentyn mewn 5 Gwlad gyda Mynegai Datblygiad Dynol Uchel lawn yn Cadarnhau Cysylltiadau Hysbys ond Ddim yn Rhoi Unrhyw Esboniad Biolegol ar gyfer 2/3 o Bob Genedigaeth Cyn-tymor. PLoS ONE 11(9): e0162506. <https://doi.org/10.1371/journal.pone.0162506>
9. Llywodraeth EM (2018), Adolygiad o Farwolaeth Plant – Canllawiau Statudol a Gweithredol (Lloegr). Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/773431/Child_death_review_statutory_and_operational_guidance_England.pdf
10. Cydbwyllgor y Bil Ymchwilio i Ddiogelwch Gwasanaethau Iechyd (2018), Drafft o'r Bil Ymchwilio i Ddiogelwch Gwasanaethau Iechyd: Dull newydd o ymchwilio i ddigwyddiadau cysylltiedig â diogelwch cleifion. Ar gael yn: <https://www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/joint-select/draft-health-service-safety-investigations-bill/news/health-service-safety-investigations-bill-report-published-17-19/>
11. Lawn JE, Blencowe H, Waiswa P, Amouzou A, Mathers C, Hogan D, Flenady V, Frøen JF, Qureshi ZU, Calderwood C, Shiekh S, Jassir FB, You D, McClure EM, Mathai M, Cousens S ar gyfer grŵp astudio Cyfres The Lancet ar gyfer Rhoi Diwedd ar Farw-enedigaethau y mae Modd eu Hosgoi, gyda grŵp ymchwilio i Epidemioleg Marw-enedigaethau The Lancet. Marw-enedigaethau: cyfraddau, ffactorau risg, a chyflymu tuag at 2030. The Lancet 2016;387(10018): 587–603. Ar gael yn: [https://www.thelancet.com/journals/lancet/article/PIIS0140-6736\(15\)00837-5/fulltext](https://www.thelancet.com/journals/lancet/article/PIIS0140-6736(15)00837-5/fulltext)
12. Mahendru A. A., Wilhelm-Benartzi C. S., Wilkinson I. B., McEniery C. M., Johnson S., Lees C. (2016). Aseiniad yng nghyswllt hyd beichiogrwydd sy'n seiliedig ar y mislif diwethaf, hyd y ffetws o'r pen i'r pen-ôl yn ystod tri mis cyntaf y beichiogrwydd, ofwliad ac amseriad mewnblaniadau. Arch. Gynecol. Obstetr. 294, 867–876. 10.1007/s00404-016-4153-3. Ar gael yn: <https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC5018029/>
13. Y Bwrdd Ansawdd Cenedlaethol (2017), *Canllawiau Cenedlaethol ar Ddysgu o Farwolaethau*. Ar gael yn: <https://www.england.nhs.uk/wp-content/uploads/2017/03/nqb-national-guidance-learning-from-deaths.pdf>
14. NHS England (2015), *Y Fframwaith Achosion Difrifol: Cefnogi dysgu er mwyn atal achosion rhag digwydd eto*. Ar gael yn: <https://improvement.nhs.uk/documents/920/serious-incident-framwrk.pdf>

15. GIG Cymru (2016), Gweithio i Wella – Lleisio pryder am y GIG yng Nghymru. Ar gael yn: http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/932/Healthcare%20Quality%20-%2030166_Putting%20Things%20Right_a5%20leaflet_Welsh_WEB%20VERSION%20-%20FINAL%20-%202017%2003%2001.pdf
16. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2018), Sut ydym ni wedi diffinio marwolaethau y mae modd eu hosgoi?, *Marwolaethau y mae modd eu hosgoi yn y DU: 2016*. Ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/causesofdeath/bulletins/avoidablemortalityinenglandandwales/2016#how-have-we-defined-avoidable-mortality>
17. Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr (2018), *Each Baby Counts – adroddiad cynnydd 2018*, ar gael yn: <https://www.rcog.org.uk/globalassets/documents/guidelines/research--audit/each-baby-counts/each-baby-counts-report-2018-11-12.pdf>
18. Cymdeithas Uwchsain Meddygol Prydain, '(Beichiogrwydd) Obstetrig'. Ar gael yn: <https://www.bmus.org/obstetric-pregnancy/>
19. *The Lancet* (2016), 'Rhoi Diwedd ar Farw-enedigaethau y mae modd eu Hosgoi: Crynodeb Gweithredol ar gyfer Cyfres The Lancet, *Marw-enedigaethau 2016: rhoi diwedd ar farw-enedigaethau y mae modd eu hosgoi*, ar gael yn: <http://www.thelancet.com/pb/assets/raw/Lancet/stories/series/stillbirths2016-exec-summ.pdf>

Atodiad E – Holiadur

Prif gwestiynau'r ymgynghoriad (C1 – C20)

- C1.** Ydych chi'n credu y dylai crwneriaid fod yn rhan o'r gwaith o ymchwilio i farw-enedigaethau? Rhewch resymau.
- C2.** Ydych chi o'r farn y byddai ymchwiliadau crwner i farw-enedigaethau yn cyflawni'r amcanion polisi a nodir ym mharagraff 41? A oes unrhyw amcanion polisi eraill y dylem eu hystyried o ran gwella'r systemau ar gyfer pennu achosion marw-enedigaethau a darparu gwasanaethau gwell?
- C3.** Ydych chi'n cytuno â'r cynnig ynglŷn â chanfod pwy yw mam y babi marwanedig ac enw'r babi, os rhoddwyd un iddo? Ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth arall y dylid ei ystyried?
- C4.** Ydych chi'n cytuno â'r cynnig ynglŷn â chanfod sut cafodd y babi ei eni'n farwanedig? Ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth arall y dylid ei ystyried?
- C5.** Ydych chi'n cytuno â'r cynnig ynglŷn â chanfod pryd y bu farw'r ffetws, neu bryd mae'n debygol fod hynny wedi digwydd, a phryd cafodd y babi ei eni'n farwanedig? Ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth arall y dylid ei ystyried?
- C6.** Ydych chi'n cytuno â'r cynnig ynglŷn â chanfod ble bu farw'r ffetws, neu bryd mae'n debygol fod hynny wedi digwydd, a ble cafodd y babi marwanedig ei eni? Ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth arall y dylid ei ystyried?
- C7.** Ydych chi'n cytuno y dylai crwneriaid, fel rhan o'u canfyddiadau, nodi pwyntiau dysgu allweddol a chyflwyno argymhellion i'r bobl a'r cyrff maent yn eu hystyried yn berthnasol? Os nad ydych chi, sut ydych chi'n meddwl dylai crwneriaid rannu pwyntiau dysgu?
- C8.** Y tu hwnt i nodi pwyntiau dysgu mewn achosion unigol, ydych chi'n meddwl y dylai crwneriaid fod yn rhan o'r gwaith o hybu arferion gorau ym maes gofal cynenedigol?
- C9.** A oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei weld yn deillio o ymchwiliad crwner i farw-enedigaeth? Pa benderfyniadau eraill y dylid eu gwneud?
- C10.** Ydych chi'n cytuno nad oes angen i'r rhieni sydd wedi colli babi, nac unrhyw un arall, roi cydsyniad na chaniatâd i grwner gynnal ymchwiliad i farw-enedigaeth? Rhewch resymau.
- C11.** Ydych chi'n cytuno y dylai dyletswydd crwner i gynnal cwest fod yn berthnasol i ymchwiliadau i farw-enedigaethau? Rhewch resymau.
- C12.** Ydych chi'n cytuno â'r cynigion ynglŷn â'r cysylltiadau a'r gwaith o roi pethau mewn trefn rhwng ymchwiliadau crwner ac ymchwiliadau heb eu cyfeirio at grwner? Rhewch resymau.
- C13.** Ydych chi o'r farn y dylai crwneriaid fod â'r un pwerau mewn ymchwiliadau i farw-enedigaethau â'r rhai sydd ganddynt mewn ymchwiliadau i farwolaethau ar hyn o bryd – o

ran tystiolaeth, dogfennau a thystion, a gofyn am archwiliadau meddygol? Rhowch resymau.

C14. Pa bwerau eraill, os o gwbl, ddylai crwneriaid eu defnyddio er mwyn helpu eu hymchwiliadau i farw-enedigaethau?

C15. Ydych chi'n meddwl ei bod yn briodol i grwneriaid gymryd meddiant cyfreithiol o'r brych? Os nad ydych chi, pam?

C16. Ydych chi'n cytuno y dylai crwneriaid gael cydsyniad neu ganiatâd gan drydydd parti er mwyn defnyddio eu pwerau, ac eithrio pan mae rheolau eisoes ar waith yng nghyswllt gofyniad o'r fath? Rhowch resymau.

C17. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ymchwilio i farwolaethau tymor llawn yn unig, neu ydych chi'n credu y dylai'r rhwymedigaeth i ymchwilio gwmpasu pob marw-enedigaeth?

C18. Os mai 'na' oedd eich ateb i ddwy ran y cwestiwn uchod, pa grŵp o farw-enedigaethau ddylid ymchwilio iddynt yn eich barn chi?

C19. A ydych chi'n cytuno y dylai crwner ymchwilio i bob marw-enedigaeth tymor llawn (h.y. pob marw-enedigaeth sy'n cael ei chwmpasu)? Neu a ydych chi'n credu y dylid gwahaniaethu mwy o fewn y categori hwn?

C20. A ydych chi'n cytuno â'r cynnig uchod ynglŷn â sut dylid cofrestru marw-enedigaeth ar ôl i grwner gynnal ymchwiliad?

Cwestiynau am yr Asesiad o Effaith (AE) (C21 – C28)

Cyfran yr ymchwiliadau lle mae angen archwiliad post-mortem, a chost archwiliad post-mortem

Cwestiwn 21.1 (AE): Ydych chi'n cytuno â'r dybiaeth y byddai angen cynnal archwiliad post-mortem yng nghyswllt y rhan fwyaf o ymchwiliadau i farw-enedigaethau (yn yr AE, rydym wedi defnyddio amcan uchaf o 100%)? Os nad ydych, esboniwch pam, gan roi tystiolaeth ategol os oes modd.

Cwestiwn 21.2 (AE): Hefyd, rydym wedi tybio y byddai archwiliad post-mortem ar gyfer marw-enedigaeth yn costio £2,000³⁴. Rydym yn cydnabod bod hyn yn amrywio yn ôl ardal ac felly byddem yn gwerthfawrogi safbwyntiau ar hyn, ac yn enwedig unrhyw dystiolaeth am gost gyfartalog archwiliad post-mortem ar gyfer marw-enedigaeth yn eich ardal.

Dogfennau a chwest llawn

Cwestiwn 22 (AE): Ydych chi'n cytuno â'r dybiaeth y byddai modd cynnal cwest ar sail tystiolaeth ysgrifenedig yn unig yn achos tua 20% o farw-enedigaethau (gelwir hwn yn gwest dogfennol weithiau) ac y byddai angen tystion i roi tystiolaeth lafar mewn 80% o achosion? Os nad ydych, esboniwch pam, gan roi tystiolaeth ategol os oes modd.

³⁴ Nodwch mai'r gost gyfartalog ar gyfer cynnal post-mortem mae hyn yn ei olygu, nid 'pris' post-mortem – h.y. y costau mae'r cyflenwr yn eu hwynebu yng nghyswllt post-mortem, nid y gost mae comisiynwyr archwiliadau post-mortem wedi'i thalu neu ei adfer.

Amser mae'n ei gymryd i grwner gynnal achos ynghylch marw-enedigaeth ar gyfartaledd

Cwestiwn 23 (AE): Ydych chi'n cytuno â'n tybiaeth ni bod achosion yng nghyswllt marw-enedigaeth yn gymhleth ac y byddai angen tua 4 awr o amser y crwner a thua 15 awr o amser swyddog y crwner i adolygu'r achos (ac eithrio amser sy'n cael ei dreulio yn y cwest)? Os nad ydych, esboniwch pam, gan roi tystiolaeth ategol os oes modd.

Cwestiwn 24 (AE): Ydych chi'n cytuno â'r tybiaethau canlynol?:

- (i) mae'n debygol mai uwch-grwner neu grwner ardal fyddai'n ymchwilio i achosion o farw-enedigaethau ac fe sicrhewir eu bod ar gael i wneud hyn drwy gynyddu nifer y crwneriaid cynorthwyol i ddelio â'r achosion llai cymhleth y mae'r uwch-grwner neu'r crwner ardal yn ymgymryd â nhw ar hyn o bryd;
- (ii) byddai crwneriaid cynorthwyol yn treulio cymaint o oriau â'r uwch-grwner/crwner ardal ar yr achosion hyn.

Cost cwest ar gyfartaledd

Cwestiwn 25 (AE): Byddem yn croesawu safbwyntiau ar y dybiaeth yn yr AE bod cwest dogfennol yn costio £400 ar gyfartaledd a bod cwest llawn yn costio £3,000 ar gyfartaledd (gan gynnwys costau'r crwner, costau'r swyddog ymchwilio, costau tystion a chostau adeilad y llys).

Uchafswm staff y GIG sy'n rhan o'r broses

Cwestiwn 26 (AE): Ydych chi'n cytuno â'n tybiaeth y gallai hyd at 6 o staff y GIG (ymgyngorydd meddygol, meddyg iau, 3 bydwraig/nyrs a rheolwr y GIG) ddarparu hyd at 7 awr o'u hamser mewn cysylltiad ag ymchwiliad crwner i farw-enedigaeth?

Patholeg amenedigol a phediatrig

Cwestiwn 27.1 (AE): Ydych chi'n cytuno â'n tybiaeth bod 1 patholegydd amenedigol cyfwerth ag amser llawn (FTE) yn gallu cynnal rhwng 100 a 200 post-mortem ar fabanod marwanedig mewn blwyddyn – ac felly, os bydd ymchwiliadau crwner i farw-enedigaethau yn golygu 450 yn fwy o archwiliadau post-mortem bob blwyddyn, byddai angen rhwng 2.25 a 4.5 patholegydd amenedigol cyfwerth ag amser llawn er mwyn cyflawni'r baich gwaith ychwanegol? Os nad ydych, esboniwch pam, gan roi tystiolaeth ategol os oes modd.

Cwestiwn 27.2 (AE): O'r archwiliadau post-mortem ychwanegol mae'n bosibl y bydd galw amdanynt yn eich ardal yng nghyswllt marw-enedigaethau, pa ganran ohonynt fyddai'r archwilwyr yn gallu eu cyflawni, ac yn fodlon eu cyflawni?

Cwestiwn 27.3 (AE): Os nad 100% oedd eich ateb i gwestiwn 27.2, pa drefniadau ariannu gwahanol ydych chi'n meddwl y byddai eu hangen er mwyn cefnogi'r cynnydd yn y galw am archwiliadau post-mortem yng nghyswllt marw-enedigaethau tymor llawn?

Ymchwiliadau i farw-enedigaethau sy'n bodoli eisoes

Cwestiwn 28 (AE): Yn eich barn chi, pa effaith allai ymchwiliadau crwner i farw-enedigaethau ei chael ar yr ymchwiliadau i farw-enedigaethau sy'n cael eu cynnal: a) yn lleol; a b) gan y Gangen Ymchwilio i Ddiogelwch Gofal Iechyd (HSIB)? A fydd yr ymchwiliadau presennol i farw-enedigaethau yn dal i fod yn annibynnol ar ymchwiliadau'r crwner neu a fydd rhywfaint o'r gweithgarwch presennol yn cael ei ddisodli gan ymchwiliadau'r crwner i farw-enedigaethau, neu a fydd hyn yn effeithio arnynt fel arall?

Cydraddoldeb

C29 (AE). Ydych chi'n meddwl y gallai'r cynigion ym mhenodau 1 i 6 gael mwy o effaith ar grŵp sydd â nodwedd warchodedig? Os felly, esboniwch beth fyddai'r effeithiau hyn a pha grwpiau y gallai hyn effeithio arnynt.

CCS0219686644

978-1-5286-1057-5